

ECO'R WYDDFA

RHIF 364 MAWRTH 2009

PRIS 40c

PRIS YR ECO

Bydd pris yr Eco yn codi i 50c o Ebrill, ar ôl bod yn 40c ers Hydref 1999. I'r rhai sydd yn talu am flwyddyn o flaen llaw bydd y gost yn £5.00 am flwyddyn. Bydd y gost am ei dderbyn drwy'r post hefyd yn codi. Am flwyddyn o Ebrill bydd yn costio £11.50 i'n darllenwyr ym Mhrydain a £25.50 dramor.

COLLI GWASANAETH?



Syrjyri doctoriaid Waunfawr yn Llanrug



Syrjyri doctoriaid Llanberis yn Llanrug

Gall yr Eco ddadlennu fod cais wedi ei wneud i agor siop fferyllydd yn Llanrug. Pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu gallai olygu colled yn y gwasanaethau a gynigir gan y ddwy feddygfa'n y pentref. Deallwn fod y cais wedi ei wneud i Fwrdd Iechyd Gwynedd gan ddau fferyllydd o Fôn: Dr D. J. Barlow o Rosneigr ac S. B. Carr o'r Fali. Dyma'r unig ddau fferyllydd annibynnol ar yr ynys. Mae'r unarddeg arall yn eiddo i gwmnïau. Derbyniodd yr Eco ddatganiad gan feddygon y Waunfawr yn tanlinellu'r bygythiad i'w practis, a chyhoeddir ef yma er gwybodaeth:

BYGYTHIAD DIFRIFOL I'N PRACTIS

Fel eich meddygon teulu, teimlwn y dylem eich hysbysu o fygythiad difrifol i'n Practis. Gwnaethpwyd cais, gan Mri Carr a Barlow, i Fwrdd Iechyd Lleol Gwynedd i agor siop fferyllydd ar Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Pe bai'r cais yma yn llwyddiannus, byddem ni fel Practis, yn ogystal â'n cyd-feddygon cyfagos yn Llanberis, yn colli'r hawl i ddosbarthu moddion i unrhyw glaf sy'n byw o fewn milltir i'r fferyllyfa arfaethedig.

Golyga hyn y byddem yn colli incwm sylweddol ac y byddai'n rhaid colli aelodau o'r staff, ac yn bendant un o'r meddygon. O ganlyniad, byddai gostyngiad sylweddol yn y gwasanaeth i bentref Llanrug.

Hyderwn eich bod wedi cael y gwasanaeth meddygol gorau gennym dros y blynyddoedd. Yn anochel, byddai colli meddyg yn golygu dirywiad yn ansawdd y gofal yma, nid yn unig i'n cleifion yn Llanrug, ond i bob un o'r 5,000 a mwy o boblogaeth y Practis.

Teimlwn yn gryf y dylai'r Bwrdd Iechyd wrthod y cais yma.

Os ydych chi'n gwerthfawrogi'r gofal meddygol a dosbarthu a roddwyd i chi a'ch teulu dros y blynyddoedd yn Llanrug, byddem yn falch o'ch cymorth. Os ydych chi'n credu fod meddyg yn Llanrug yn fwy o fudd i chi a'r teulu na fferyllydd, fydddech chi cystal ag ysgrifennu mor fuan â phosibl i:

Emma Williams
Canolfan Gwasanaethau Busnes
GIG Cymru
Tŷ Cwmbrân
Ystad Parc Mamhilad Pontypwl
Tor-faen NP4 0XS

neu e-bost:

emma.williams2@bsc.wales.nhs.uk

Os nad ydym yn barod i ymladd yn gryf yn erbyn y cais yma, teimlwn na allwn barhau gyda'r gofal meddygol rydych wedi arfer ei gael dros y blynyddoedd.

Diolch yn fawr

HUW L. ROBERTS,
ESYLLT LLWYD,
GRUFFUDD PENRHYN JONES,
HUW GWILYM

METHU CYNNAL Y CYNNALADWY



Diwedd y mis hwn bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn pheidio ag ariannu gwasanaeth bws y Sherpa sy'n cynnig teithiau hanfodol i drigolion ac ymwelwyr o amgylch dyffrynoedd Eryri. Mae'n wasanaeth prysur iawn o Lanberis i fyny'r Bwlch, a hefyd yn ardal Rhyd-Ddu, Betws Garmon a'r Waunfawr.

Sefydlwyd y gwasanaeth mewn partneriaeth rhwng Parc Cenedlaethol Eryri a chynghorau Gwynedd a Chonwy. Roedd yn anelu i gynnal gwasanaeth

cynnaladwy a thrwy hynny leihau'r nifer o gerbydau ar ffyrdd dyffrynoedd Eryri a'r angen am baratoi llefydd parcio o fewn y Parc. Y bwriad ar hyn o bryd yw parhau â'r gwasanaeth presennol tan yr haf ac ail-edrych ar y sefyllfa ddiwedd Awst er mwyn gwneud penderfyniad ynglŷn â thaflen amser y gaeaf.



ECO'R WYDDFA

**RHIF 364
MAWRTH 2009**

*Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911*

*Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.*

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Erthyglau a newyddion at ohebwyr pentref neu i

Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

GEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Geunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

NOS SUL Mawrth 15fed

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU Mawrth 26ain

Dyddiad Gosod

SUL Mawrth 22, 5 y pwnn

Sefydliad Coffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Mawrth	Mawrth 16 fan bellaf	26 Mawrth			

Llythyrau

Dyfodol Tai Cyngor Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn ymgynghori â thenantiaid ar y cynnig o drosglwyddo ei gartrefi i gymdeithas dai newydd annibynnol a dielw.

Byddant yn cael pleidleisio ar y mater yn y gwanwyn ac yn cael dewis un o ddau opsiwn - sef aros gyda'r Cyngor neu drosglwyddo i'r gymdeithas dai newydd, sef Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

Waeth beth fydd canlyniad y bleidlais ni fydd tai Cyngor Gwynedd yn cael eu preifateiddio a bydd hawliau tenantiaid yn cael eu diogelu. Statws swyddogol Cartrefi Cymunedol Gwynedd fyddai Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ac nid cwmni preifat. Byddai'r corff yn cael ei sefydlu gyda chymorth y Cyngor Sir.

Fel pob landlord cymdeithasol arall byddai'r corff newydd yn cael ei reoleiddio gan y Cynulliad ac yn cael ei redeg gan fwrdd rheoli gwirfoddol. Ar y bwrdd bydd pedwar tenant, pedwar Cynghorydd Gwynedd a phedwar unigolyn annibynnol.

Am ragor o wybodaeth gall tenantiaid y Cyngor gysylltu â:

• Llinell wybodaeth radffôn y Cyngor ar 0800 0304653

• Comisiwn Tenantiaid Gwynedd ar (01286) 889121 am sgwrs yn Gymraeg, neu (01286) 889110 am sgwrs yn Saesneg

• Ymgynghorydd Tenantiaid Annibynnol, PS Consultants, ar radffôn 0800 019 4004 (Cymraeg) neu 0800 085 2207 (Saesneg)

Derbyniwyd gan Ffrancon Williams, Pennaeth Prosiect Pleidlais Stoc Tai, Cyngor Gwynedd yn dilyn yr erthygl yn yr Eco fis Chwefror. Gol.

Annog Pobl Ifanc Gwynedd i Fod yn Weledol

Mae niferoedd damweiniau ffyrdd yn gallu cynyddu yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf - yn enwedig felly damweiniau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc. Dyna pam fod Tîm Diogelwch y Ffyrdd Cyngor Gwynedd, gyda chymorth eu cymeriad arbennig, Carys Ofalus wedi cynnal cystadleuaeth Bod yn Amlwg, Bod yn Ddiogel.

Gyda throi'r clociau yn ôl, a'r ffaith ei bod yn tywyllu yn gynt yn ystod misoedd y gaeaf, mac'n bwysig sicrhau eich bod yn weledol i yrwyr ceir pan ydych

chi'n croesi'r ffordd ar droed neu wrth deithio ar feic. Dyna oedd prif neges y gystadleuaeth Bod yn Amlwg, Bod yn Ddiogel a gynhaliwyd ar wefan Carys Ofalus, www.carysofalus.net

'Cafwyd ymateb arbennig gan blant ar hyd a lled Gwynedd, a diolch iddynt i gyd am gymryd rhan,' meddai Mai Jones o Dîm Diogelwch y Ffyrdd Cyngor Gwynedd. Roedd y cystadlaethau amrywiol ar gyfer yr oedrannau yn amrywiol ond y byrdwn clir oedd bod gwisgo dillad llachar ac adlewyrchol yn bwysig iawn wrth groesi'r ffordd.

Derbyniodd disgyblion cynradd y sir strap arddwrn adlewyrchol a fflwroleuol i gyd fynd â'r gystadleuaeth, a chynhaliwyd seremoni wobrwyo yn Y Ganolfan ym Mhorthmadog, lle daeth y plant i gasglu eu gwobrwyon. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd.

Cofiwch Gefnogi ein Hysbysebwy

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979

620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

PWYSIG PWYSIG PWYSIG

**I bawb sydd am anfon newyddion, deunydd,
storïau, erthyglau ac yn y blaen ar gyfer rhifyn
Ebrill 2009.**

Bydd angen anfon newyddion i law gohebydd pentref erbyn nos Sul Mwrth 15fed. Os am ei anfon drwy ebost i Alwena rhaid iddo gyrraedd erbyn bore Mawrth yr 17eg.

Cyfeiriad ebost Alwena ydy -

alwenaowen@gmail.com

Os yn anfon drwy ebost, wnewch chi anfon unrhyw luniau fel ffeiliau llun (JPEG gan amlaf) ac nid fel lluniau mewn dogfen brosesydd geiriau fel Word. Felly anfon y lluniau'n unigol ac yna anfon y testun ar wahân.

Hefyd, cewch anfon deunydd erbyn dydd Mawrth 15fed i Gavin Saynor, Penarth, Stryd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4BA

RHAID i'r holl ddeunydd fod i law Alwena erbyn dydd Mawrth. Ni fydd unrhyw ddeunydd a dderbynir wedi'r dyddiad hwn yn cael ei gynnwys!

PEIDIWCH ac anfon unrhyw ddeunydd i Wasg Gwynedd nac i Wasg Dwyfor.

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo MENAI SEWING MACHINE CENTRE

**33 Stryd Fawr
PORTHAETHWY**

Ffôn: (01248) 714043

neu **Caernarfon**

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

GWYNEDD A MÔN YN TARO TANT

Mae Band Chwyth Symffonig Gwynedd a Môn wedi dangos eu doniau yng Ngŵyl Ranbarthol Bandiau Cyngerdd Cenedlaethol yn Bradford drwy ennill y wobwr aur. Mae'r band hefyd wedi ei wahodd i berfformio yn yr ŵyl Genedlaethol yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd ym mis Ebrill.

Mae gan y band 60 o aelodau a chaiff ei weinyddu gan Wasanaeth Ysgolion William Mathias ar ran Cynghorau Gwynedd a Môn. Mae'r aelodau yn ddisgyblion ysgolion uwchradd o'r ddwy sir.

Daeth adran sacsoffon y band i'r bri a fe'i disgrifiwyd fel 'gwyh'. Mae un o'r cerddorion hyn wedi derbyn ysgoloriaeth i fynd ar gwrs yn Ysgol Gerddoriaeth Cadeirlan Wells.

Talwyd teyrnged i'r band gan y cyfansoddwr byd enwog a'r

beirniad, Guy Wolfenden. Wedi clywed eu perfformiad o 'Serenade' gan Bourgeois, meddai: 'Gallai'r curiad 11/8 fod yn ddiosg i'r bandiau mwyaf profiadol, ond nid oedd yn fygythiad i'r band coeth yma.'

Gŵyl ddi-gystadleuaeth yw'r ŵyl Bandiau Cyngerdd Cenedlaethol ble mae mwy na 120 o fandiau - gyda chyfanswm o tua 5,000 o gerddorion - yn cymryd rhan. Disgwylir tua 2,400 o gerddorion a'u cefnogwyr yn y digwyddiad cenedlaethol sydd i'w gynnal yng Nghaerdydd.

Dywedodd arweinydd y band, Paul Hughes: 'Rydw i wrth fy modd fod y band wedi ennill y wobwr aur am yr ail waith yn yr Ŵyl Ranbarthol. Llongyfarchiadau i'r holl fyfyrwyr am eu hymroddiad, brwdfrydedd a'u gallu cerddorol.'

Casgliadau Gwastraff Bwyd Newydd yn Arfon

Bydd trigolion ardal Arfon o Wynedd sydd wedi derbyn biniau brown yn falch o glywed fod modd iddynt wneud defnydd o wasanaeth newydd i gasglu gwastraff bwyd. Fel rhan o'r cynllun newydd, gellir cael gwared ag unrhyw fath o wastraff bwyd drwy ei roi yn y bin olwyn brown gyda'r gwastraff gardd.

Hyd yma mae 9,000 o drigolion ardal Arfon wedi derbyn bin brown ar gyfer gwastraff fel gwair neu blanhigion o'r ardd, ond bellach bydd modd iddynt roi gwastraff bwyd yn gymysg gyda'u deiliach a'u gwair.

Er mwyn helpu trigolion i ailgylchu eu gwastraff bwyd, mae Tîm Ailgylchu'r Cyngor wedi bod yn brysur yn dosbarthu cad i gegin 5 litr ynghyd â chalendarau a gwybodaeth am sut i wneud y defnydd gorau o'r gwasanaeth

newydd. Gall trigolion gadw'r cad i cegin brown yn y gegin i ddal y gwastraff bwyd, ac yna'i ddefnyddio i gario'r gwastraff i'r bin brown.

Bydd y gwastraff bwyd yma, a'r gwastraff gardd yn mynd yn rhydd yn y bin brown - ni ddylid rhoi'r gwastraff mewn bagiau plastig neu gynhwysyddion plastig gan na ellir eu compostio - ac yn cael ei gasglu o ochr y ffordd fel arfer.

Bydd yr holl wastraff yn mynd i safle compostio arloesol - a adeiladwyd y safle yn Penhesgyn ar Ynys Môn, mewn partneriaeth rhwng cynghorau Gwynedd, Môn, a Chonwy - a bydd y gwastraff bwyd a'r gwastraff gardd yn cael ei drin a'i droi yn gompost o safon uchel.

Dywedodd y Cynghorydd Arwel Pierce, Arweinydd Portffolio Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd: 'Mae'r gwasanaeth newydd yma ar gyfer trigolion ardal Arfon o'r sir yn gam pwysig ymlaen i Gyngor Gwynedd wrth i ni

ENILLYDD YSGOLORIAETH



Anwen Glyn Roberts o Lanberis, yn cael siec am £500 gan yr Athro Colin Baker, Dirprwy Is-ganghellor Prifysgol Bangor. Roedd Anwen yn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, ac mae ar hyn o bryd yn astudio Hanes Cymru a Chymraeg ym Mhrifysgol Bangor.

ymdrechu i gyrraedd targedau heriol Llywodraeth y Cynulliad i gompostio ac ailgylchu 40% o'n gwastraff erbyn 2009/10.'

Mae ymateb trigolion Gwynedd i'r her ailgylchu a chompostio yn galonogol iawn, ac rydym yn gobeithio y bydd y gwasanaeth newydd yma a fydd yn galluogi nifer o drigolion Arfon i gompostio gwastraff bwyd yn derbyn yr un gefnogaeth.'

Fel rhan o'r gwasanaeth newydd, bydd modd i drigolion gael gwared a'r gwastraff bwyd canlynol yn eu bin brown:

- cig esgryn a physgod (amrwd neu wedi eu coginio)
 - ffrwythau a llysiau (amrwd neu wedi eu coginio)
 - pasta/reis/ffa (amrwd neu wedi eu coginio)
 - bagiau te a choffi mal
 - caws/bara/wyau
- Ond, ni fydd modd derbyn y canlynol:
- hylif - olew coginio/ llefrith/ diodydd
 - plastig

- polysteirin/sbwriel
- bagiau/cynhwysyddion plastig

Bydd mwy o'r biniau brown a chadi cegin yn cael eu dosbarthu i drigolion Arfon dros y misoedd nesaf.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw agwedd o'r gwasanaeth newydd yma mae Desg Gymorth Gwastraff ac Ailgylchu'r Cyngor ar gael drwy ffonio: (01286) 679872 neu e-bostio i: ailgylchu@gwynedd.gov.uk

RHODDION

£10: Parch Dafydd Hughes, Caernarfon; Adrian a Bethan Evans, Bwcle; Susan Williams, Pant Hyfryd, Ceunant; Olive Owen, Nelson, Treharris.
£5: Mr a Mrs John Evans, Pen Parc, Bethel; Mrs Glenys Roberts, 13 Maes Gwylfa, Deiniolen; Ian a Sarah, Tan Dinas, Llanberis; Kathleen, Norah a Joan, er cof am Elwyn

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul

**THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS**

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (0)870 832 9903

CEIR CYMRU
BETHEL
(01248) 670451

www.ceircymru.com

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros yr 18 mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

Dymuniadau gorau ar gyfer 2009 i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* ac ystyriwch hon fel adduned blwyddyn newydd.

'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'

O SLAMBAR SELWYN

Dwi ddim yn cofio i mi gael cymaint o gynhyrchion llenyddol mewn Eisteddfod leol ers tro byd ac a gefais yn Eisteddfod Gadeiriol Chwilog eleni. Dau ar bymtheg yn cynnig am y Gadair, ac o leiaf saith neu wyth ohonynt yn gwbl deilwng.

Hyfryd oedd gweld Annes Glynn o Rhiwlas yn codi ar alwad y corn gwlad. Wrth gwrs, mae Annes wedi cael y profiad o godi ym mhafiliwn y Brifwyl, pan enillodd hi Y Fedal Ryddiaith yng Nghasnewydd yn 2004. Ond roedd codi yn Chwilog yn brofiad cofiadwy iddi hefyd, oherwydd dyma ei chadair gyntaf. Os gwn i ai hi fydd yr ail i gyflawni camp Mererid?

Rwy'n cofio cael y ffrainc o roddi ei Gadair gyntaf i fardd ifanc yn Eisteddfod Cricieth yn y flwyddyn 1982. Daeth ef a'i briod a'u baban bach yr holl ffordd o Gwm Tawe i'r eisteddfod. Ddwy flynedd yn ddiweddarach roedd y bardd ifanc hwnnw yn eistedd yng nghadair y Brifwyl yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl 1985. Ei enw - Robat Powel, a fo oedd y dysgwr cyntaf i ennill Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol.

Roedd yna nifer dda wedi cystadlu ar gystadlaethau eraill yr adran lenyddol hefyd a rheiny yn gyfansoddiadau o safon ar y cyfan. Gofynnir yn aml beth ydi'r gwahaniaeth rhwng 'englyn ysgafn' ac 'englyn digri'. Wel, yr ateb rydw i wedi ei gynnig bob tro ydi - 'fe ddylai englyn ysgafn ddod â gwên i'r wyneb, tra dylai englyn digri wneud i chi chwerthin.

Y testun a osodais yn Chwilog oedd englyn ysgafn ar y teitl 'Bai ar Gam'. Fe ddwedwn i fod y ddau a ddaeth i'r brig yn englynion digri, a tydi hi ddim yn dasg hawdd llunio englyn digri llwyddiannus. Dyma'r ddau. Ydyn nhw'n gwneud i chi

chwerthin?

Un go wyntog yw Anti - un na all Ddal yn ôl mewn cwmni, Hyn sydd embaras iddi Ond trwy lwc mae'n cadw ci.

Dwi'n bendant nad oedd cath Anti - neithiwr

'Da cathod yr Ali, Oherwydd treuliodd Jeri Noson hir 'fo Pwsi ni.

Dwi'n cofio cael englyn arall ar yr un testun yn Eisteddfod Treffynnon rai blynyddoedd yn ôl:

Bai ar Gam

Rhwydwyd Wil i briodi - wedi'r oed

A'r hwyl hefo Siani; Ef yn ŵr a fynnai hi Ond Bob yw tad y babi.

Gyda llaw, 'Bai ar Gam' ydi testun yr englyn ysgafn yn y Brifwyl yn Y Bala eleni.

Cefais englyn arbennig o dda ar y testun 'Dagrau hefyd:

Pan fo'r galon yn cronni ei geiriau

o'th gyrraedd, fe deimli ddistawrwydd ei hymchwyl hi hyd ruddiau'n ymadroddi.

Englyn un frawddeg, a oedd yn nodweddiadol o'r diweddar T. Arfon Williams, Caethro. Rwan, yn Eisteddfod Chwilog, y buddugol ar yr englyn uchod ac un o'r englynion ysgafn oedd: Mr G. Owen, Caethro. Enw dieithr i mi, a dcallaf iddo ennill mewn eisteddfodau eraill yn ddiweddar hefyd. Fe garwn i gyfarfod â'r Mr G. Owen dawnus hwn o Gaethro. Yn sicr chafodd o ddim 'cam' yn Steddfod Chwilog.

Cydnabyddir cefnogaeth



www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Blodau Racca

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

DINORWIG

Miss Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

DATHLU 90 OED. Roedd Mrs Alice Thomas, a fu'n byw yn 1 Bro Elidir, Dinorwig am dros hanner can mlynedd ond sydd bellach yn byw ym Mhlas Pen Gwaith, Llanberis, yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar yr 16eg o Chwefror. Daeth teulu Mrs Thomas at ei gilydd i ddathlu'r garreg filltir arbennig hon yng Ngwesty'r Fictoria Llanberis brynhawn dydd Sadwrn y 14eg a chafwyd dathliad iddi yn y Cartref ar ddiwrnod ei phen-blwydd. Hoffai Mrs Thomas a'r teulu ddiolch i bawb am y llu anrhegion a chardiau yn dymuno yn dda iddi ar ei phen-blwydd arbennig ac am y gofal arbennig y mae hi yn ei dderbyn yn Plas Pen Gwaith.



Llongyfarchiadau calonnog i Mrs Alice Thomas, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar 16 Chwefror. Da iawn chi, Mrs Thomas, mae'r holl ardalwyr yn gobeithio ichwi fwynhau eich diwrnod a'ch parti.

EIRA ELEN. Fy meddwl yn crwydro yn ôl i Eco Chwefror 2007, pryd yr oedd y dudalen flaen yn dangos eira ar yr

Wyddfa. Yr oedd y llun yma'n gwneud i ni ryfeddu a chredem ei bod yn annhebygol iawn y byddem ni'n gweld golygfa debyg eto yn ystod ein hoes ni. Yr oedd yn anodd credu hyn ond, wrth gwrs, ar ôl dwy flynedd union yr ydym yn gweld yr Wyddfa a'r mynyddoedd eraill i gyd yn wyn gan eira trwchus. Collodd pedwar eu bywydau ar y mynyddoedd mewn cyfnod o wyth diwrnod ac, wrth ysgrifennu i'r Eco yn awr, y mae tipyn o eira yn dal ar yr Wyddfa.

I fyny yma ni chafwyd na phost na bws am ddau ddiwrnod ac, wrth gwrs, oherwydd cyflwr y ffordd nid oedd neb yn disgwyl eu gweld. Cofiodd llawer iawn fod ganddynt draed a cherdded am dro ac roedd y plant wrth eu bodd yn cael chwarae yn yr eira. Gobeithio y cawn haf ar ôl y gaeaf yma. Credaf ein bod yn ei haeddu oherwydd mae'r tywydd wedi bod yn andros o oer ers cyn y Nadolig.

DIOLCHIADAU. Dymuna Gwennllian a theulu y diweddar Gwilym Owen Roberts, Weirglodd Goch, Penisarwaun, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad, yn ymweliadau, cardiau a galwadau ffôn yn ystod eu profedigaeth o golli Gwilym.

Diolch arbennig i Dr H. Roberts, Waunfawr, y Canon Tegid Roberts, yr ymgymerywr E.W. Pritchard, Morfa Nefyn am y trefniadau trylwyr, ac i'r merched am baratoi y te angladd. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gronfa Ymchwil y Galon.



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C.

mewn cymhorthfa, ffoniwch 01286 672076 i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE

neu

ebost: williamsgw@parliament.uk

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun

Y SAMARIAID
(01248) 674985

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

YSGOL CWM Y GLO

Daeth Dennis Davies o'r NSPCC draw i'r ysgol i roi cyflwyniad i'r disgyblion i gyd. Yn dilyn hyn casglwyd dros £200 i'r mudiad a diolchwn i bob teulu gymerodd rhan.

Daeth Anna Marie o Radio Cymru i gyfnewid rhai o ddisgyblion hynaf yr ysgol am y cysylltiad rhwng ysgol yn India ac ysgol Cwm y Glo. Mae'r disgyblion wedi anfon llythyrau i ysgol yn India. Mae Marion Hughes o Menter Fachwen yno ar hyn o bryd, ac wedi trosglwyddo'r llythyrau i'r plant. Rydym eisoes wedi derbyn sawl e-bost gan Marion ac yn deall fod y llythyrau wedi achosi peth cynnwrf yn y gymuned, yn enwedig gan na welwyd neb o Brydain yn yr

ardal ers 1840!

Cafodd ddisgyblion Blwyddyn 6 fynd ar ymweliad preswyl â Phlas Tan y Bwlch, Maentwrog. Roedd cael aros yn y Plas a mynd i lawr Chwael Llechwedd yn agoriad llygaid iddynt.

Aeth nifer o aelodau'r Urdd draw i Ddisgo'r Urdd yn Ysgol Syr Hugh Owen. Mae'n dymor Eisteddfodau ac mae prysurdeb mawr yn yr ysgol rhwng y Dawnsio Gwerin, Parti Recorders a'r Côr. Pob lwc i bawb sy'n cymryd rhan.

Diolchwn i Angie Roberts am ddod draw i'r ysgol i roi cyflwyniad bywiog ar Fasnach Deg. Roedd pawb wedi mwynhau cael tro ar yr offerynnau cerdd Masnach Deg!



Disgyblion Blwyddyn 6 ym Mhlas Tan y Bwlch.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CYDYMDEIMLO. Collodd Robert Owen, 1 Erw Deg, ei wraig, Jennie, gartref ganol mis Chwefror. Cydymdeimlwn â Robert a gweddill y teulu.

YN YR YSBYTY. Bu Oliver Thomas, Llwyn Celyn, a Glyn 'Garej' Evans, Llwyn Alice, yn Ysbyty Eryri am gyfnodau yn ystod y mis. Edrychwn ymlaen i weld y ddau adref unwaith eto cyn bo hir.

DWY SGWRS, DWY MEGAN. Ddiwedd Ionawr cafwyd dwy sgwrs ddiddorol ddiwedd yr un wythnos. Roedd un enw cyffredin rhyngddynt, sef 'Megan'. Ar y nos Iau roedd sgwrs yn Galeri, sef 'Ryfeddodau Natur Cymru' gan Iolo Williams, sef mab Megan Williams, 'Refail. Wedyn ar y nos Wener, yng Nghanolfan y Capel, cafwyd sgwrs ar daith o Gaeathro i'r gwerysll ar waelod mynydd uchaf y byd - Everest, gan y ferch Gymraeg ieuengaf i gerdded yno, sef Megan Lloyd, Tyddyn Cae. Roedd yr un ddawn ganddynt, sef darparu gwybodaeth mewn dull cartrefol, Cymraeg gyda ychydig o luniau o safon uchel. Da iawn, Caeathro.

CAEATHRO 1910. Yng Nghyfeiriadur Busnes Bennett i dref Caernarfon am 1910 rhestrwyd nifer o fusnesau yng

Nghaeathro. Dyma'r rhestr:

Bryn Gwna Inn; Wm Pritchard, Saer, Efail Bach; J. Roberts, Gof; J. R. Roberts, Masnachwyr Glo; J. R. Roberts, Groser a Phostfeistr; T. Williams, Cigydd;

CLWB JIWDO SEGONTIUM. Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Clwb am 7:00 yh, nos Lun, 2ail o Fawrth 2009 yng Nghanolfan y Capel. Gofynnir i holl rieni aelodau'r Clwb bresenoli eu hunain.

CAPEL. Cynhelir yr oedfaon canlynol yn ystod mis Mawrth:

1: 11:00 Ysgol Sul;
2:00 Parch Elwyn Richards (pleidlais ymuno â gofalaeth yn ystod y Gwasanaeth)
8: 11:00 Ysgol Sul
15: 11:00 Ysgol Sul
2:00 Parch Trefor Jones
22: 11:00 Ysgol Sul
29: 11:00 Ysgol Sul
2:00 Parch Iorwerth Jones Owen.
Croeso i bawb.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Chwefror oedd: £40: (49) Mrs O'Grady, Tyddyn Whisgin; £25: (89) Derwyn Roberts, Cefn Rhos Isaf; £15: (99) Gareth Griffiths, Tai Glangwna; £5 (02): Peter Evison, Cae Hopcyn.



Corrie, Heather a Misha gyda'r offerynnau cerdd Masnach Deg.

Sychlanhau • Altro

Ailwnio

Gwasanaeth

Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN
DIESEL PETROL CHWISTRELLIAD ARBENIGWYR

•Cymhwyter•
BOSCH
i roi gwasanaeth i'ch car heb effeithio ar y warant*
Dewis arall dibynadwy yn lle'r Prif Ddeliwr
* Gyda rhai amodau

Trwsio cerbydau a gwerthu partiâu sbâr
Lle da y gallwch ei fforddio

Stad Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

LAVER
Gwasanaeth i'r Car
BOSCH Service
OFT

AIR CON GWASANAETH BATRIS
VOLVO MERCEDES SAAB

MEWNFORIO YR ALMAEN
UNION OLWYNION CAM BELTS TRYDANOL
SWEDEN

Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynnyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

N1BC

CHWILOTA

BLE CLADDWYD GRIFFITH THOMAS?



Y tu allan i Gapel y Bryngwyn, Llanrug, mae cofgolofn sy'n coffau y Parch Griffith Thomas, a fu'n weinidog ar yr eglwys o 1852 hyd ei farwolaeth ar Fawrth 16eg 1879. Yn ôl traddodiad, fe'i claddwyd o y tu allan i'r capel, rhwng y ddau ddrws ffyrnt. Yn ddiweddar, gofynnwyd i mi gan swyddogion eglwys y Bryngwyn a oedd gwirionedd yn hyn, ac a oedd y Parch Griffith Thomas wedi ei gladdu wrth ddrws ffyrnt y capel.

Cefais fenthyg llyfryn bychan a ysgrifennwyd am hanes yr achos yno, sef *Hanes Eglwys y Bryngwyn, Llanrug 1833-1970* wedi ei ysgrifennu gan y Parch Christmas Williams. Adeiladwyd y capel cyntaf yn Nhan y Coed ar dir ger Pant Bryngwyn, a galwyd y capel wrth yr enw 'Dura'.

Yn 1846 symudodd Griffith Thomas, gweinidog Saron, Bontnewydd, i Benisarwaun i gadw siop, ac yn 1852 daeth yn weinidog ar Gapel Dura. Bu cynnydd yn yr aelodau o ganlyniad i Ddiwygiad 1859, ond erbyn 1870 roedd y capel yn rhy fychan o ran maint yn Nhan y Coed. Prynwyd llain o dir ble mae'r capel presennol, ac agorwyd y capel newydd ym mis Gorffennaf 1870. Y Parch Griffith Thomas oedd y cyntaf i bregethu yn y capel newydd, a pharhaodd i ofalu am yr achos yno hyd ei farwolaeth yn 1879, yn 73 mlwydd oed. Meddai'r Parch Christmas Williams yn ei lyfryn: *'Claddwyd ei weddillion rhwng dau ddrws y capel y gweithiodd cymaint drosto am 27 o flynyddoedd. Cododd ei gyfeillion o bob enwad y golofn goffa a welir ar ei fedd.'*

Ond ai gwir y gosodiad hwn?


Dywed y Parch Christmas Williams mai brodor o Rydlydan, Pentrefoelas, oedd Griffith Thomas ond, yn ôl adroddiadau'r cyfrifiadau, mae ef ei hun yn nodi mai Ysbyty Ifan oedd ei blwyf genedigol. Roedd ei wraig yn enedigol o Ddolgellau. Yng Nghyfrifiad 1861 mae'n disgrifio'i hun fel *'Independent minister and shopkeeper'*. Yno'n cynorthwyo gyda'r busnes roedd nai iddo, sef Ishmael Davies, ugain oed, sy'n disgrifio'i hun fel *'draper and grocer'*. Roedd Elizabeth Roberts, nith ddcg oed, yn aros yno ar noson y cyfrifiad hefyd. Diddorol nodi bod cu cyfciad ym Mhenisarwaun yn cael ei roi fel 'village', ond eu bod yn union



drws nesaf i Gapel Bozra.

Yng Nghyfrifiad 1871, dim ond Independent minister yw Griffith Thomas, a'i wraig sy'n *'shopkeeper and draper'*, ond gyda 'Llanrug' mewn cromfachau, sy'n awgrymu fod siop ganddi yn Llanrug hefyd. Ble tybed roedd honno? Mae'n amlwg fod y busnes wedi cynyddu, neu fod angen mwy o help oherwydd fod Griffith Thomas a'i wraig bellach yn 65 mlwydd oed. Roedd dau nai iddynt yn cynorthwyo gyda'r busnes: Azariah Davies, 28 oed a genedigol o Dir Abad, Dinbych, a William Spcakman, 21 oed, genedigol o Ddolgellau. Roedd yno hefyd forwyn yn cynorthwyo gyda'r gorchwylion yn y cartref. Bu'r William Speakman hwn yn amlwg gyda'r achos yn Bozra yn ddiweddarach.

Ond yn ôl at farwolaeth a chladdedig Griffith Thomas. Does dim adroddiad yn y *Caernarfon and Denbigh Herald* ym mis Mawrth 1879, a'r cyfan a geir yn Yr *Herald Cymraeg* am 19eg o Fawrth yw'r adroddiad am ei farwolaeth, a'r datganiad: *'Cleddir ef ym mynwent Ymneilltuol Llanrug.'* Does dim yn y rhifynnau sy'n dilyn am gynhebrwng nac am ble y cafodd ei gladdu! Y mae'r gosodiad mai ym mynwent Ymneilltuol Llanrug y



claddwyd ef hefyd yn gamarweiniol. Yr unig fynwent o'r fath ym mhlwyf Llanrug bryd hynny oedd Mynwent Capel Mawr, Llanrug, ac nid yw'n debygol fod gweinidog Annibynnol wedi ei gladdu mewn mynwent Fethodistaidd! Mae'n bosibl iddo gael ei gladdu ym mynwent eglwys Llanrug, ond does dim cofnod yn y cofrestrau plwyf. Nid yw hynny'n profi na chafodd ei gladdu yno, oherwydd er bod ymneilltuwyr yn cael eu claddu ym mynwent yr eglwys, nid oedd cofnod bob amser yn cael ei wneud o'r gladdedig. Gallai hyn fod yn wir am Landdeiniolen hefyd.

Dyna droi felly at gylchgrawn yr Annibynwyr, sef Y *Dysgedydd*, a chwilio am goffad neu adroddiad am ei farwolaeth. Yn ystod mis Ebrill 1879 cynhaliwyd cyfarfod chwarterol Arfon yn eglwys Ebenezer, a chafwyd coffad am Griffith Thomas yn y cyfarfod hwnnw, ond ni chyhoeddwyd ef yn Y *Dysgedydd*. Cofnodwyd hefyd: *'Priodol iawn fuasai iddo gael cofgolofn, a theimlid yn gyffredinol mai yn y Bryngwyn y dylid rhoddi cychwyn i'r symudiad anrhydeddus.'* Yng nghyfarfod chwarterol Awst, a gynhaliwyd yn Amana, Mynydd Llandegai, does dim sôn o gwbl am gofgolofn i Griffith Thomas, a rhaid disgwyl hyd gyfarfod chwarterol Hydref, ble ceir cofnod yn nodi *'fod cyfraniadau'n cael eu casglu o wahanol eglwysi'*. Cynhaliwyd cyfarfod chwarterol cyntaf 1880 yn Bozra,

Penisarwaun, ond does dim sôn am goffau Griffith Thomas nac am gyfraniadau tuag at y gofgolofn.

Felly, hyd yn hyn, does dim sicrwydd pendant o ble claddwyd y Parch Griffith Thomas, na chwaith pryd y codwyd y gofgolofn iddo o flaen Capel Bryngwyn. Bydd angen pori drwy fwy o rifynnau o'r *Dysgedydd* i geisio darganfod hynny.

Arbrofion gyda deinameit yn Llanberis.

Roedd damwain y powdwr oel yng Nghwm y Glo yng Ngorffennaf 1869 wedi ysgwyd chwarelwyr y fro mewn mwy nac un ystyr. Sylweddolwyd y gwir beryglon o gario nitroglycerine mewn troliau o borthladd Caernarfon i wahanol chwareli'r fro. Yn 1867 roedd Alfred Nobel wedi 'darganfod' deinameit, ac er bod nitroglycerine yn rhan annatod ohono, credid ei fod yn ddiogelach i'w symud a'i ddefnyddio.

Penodwyd pwyllgor gan Lywodraeth Prydain i archwilio i ddiogelwch a defnyddioldeb deinameit, a chynhaliwyd arbrofion gyda'r cynnyrch newydd hwn yn Llanberis yn 1872. Y Cynol Younghusband oedd llywydd y pwyllgor arbennig hwn, ac yr oedd yn bresennol yn Llanberis gyda gwahoddedigion eraill, gan gynnwys Capten Majendie (Arolygydd ffrwydron y llywodraeth), Cynol Maitland (Arolygydd Ffatrioedd ffrwydron Woolwich Arsenal),

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

L. Nobel (cynrychiolydd llywodraeth Rwsia), Alfred Nobel ei hun, a Chaptin Cragg (Chwarel Glynrhonwy).

Cynhaliwyd naw o wahanol arbrofion. Roedd y tri arbrawf cyntaf yn profi nerth y deinameit, gan ei ddefnyddio i ffrwydro trawstiau haearn mewn gwahanol sefyllfaoedd. Roedd yr arbrofion nesaf yn llawer mwy calonogol i'r rhai oedd yn bresennol, o gofio'r hyn ddigwyddodd dair blynedd ynghynt. Defnyddiwyd 56 pwys o ddeinameit, yn ei focs gwreiddiol, yn union fel pe bai wedi ei ddanfôn i'r chwarel o'r ffatri. Gollyngwyd y bocs chwe deg o droedfeddi i lawr twll yn y chwarel, ac ni wnaethpwyd unrhyw niwed i'r bocs, ond yn bwysicach fyth, wnaeth y deinameit ddim ffrwydro. Byddai gollwng nitro-glycerine yn y fath fodd wedi achosi tanchwa ddifrifol. Yna, gwnaethpwyd yn union yr un arbrawf, ond y tro hwn, gollyngwyd y deinameit 130 o droedfeddi. Er fod y bocs wedi torri, a'r pecynnau deinameit wedi eu gwasgaru, a rhai ohonynt wedi agor, ni fu unrhyw ffrwydrad.

Gyda'r chweched arbrawf, gosodwyd y bocs 56 pwys o ddeinameit ar waelod twll chwarel. Yna gollyngwyd dau gant o dywod a gwastraff llechi arno o uchder o 60 troedfedd. Maluriwyd y bocs deinameit yn gyfan gwbl, gan gynnwys y pecynnau deinameit eu hunain. Ond ni fu unrhyw ffrwydrad.

Roedd y seithfed arbrawf yn dangos sut roedd deinameit yn llosgi. Gorchuddiwyd y deinameit â choed, yna tywallt petrol drosto a'i roi ar dân. Llosgodd y cyfan am bron i hanner awr cyn i'r deinameit ei hun ddechrau llosgi, gan roi fflam goch ffyrnig a barhaodd am tua chwe munud cyn ffrwydro. Roedd y ffrwydrad wcdi gwncud twll pum troedfedd o ddyfnder yn y tir mawnoglyd.

Roedd y ddau arbrawf diwethaf yn dangos fod swm

bychan o ddeinameit, o'i roi ar dân, heb ddefnyddio petrol, yn llosgi heb ffrwydro. Roedd yr holl arbrofion hyn yn dangos pa mor nerthol oedd deinameit o'i ddefnyddio'n gywir; ond yn bwysicach fyth, pa mor ddiogel oedd.

Defnyddiwyd y seithfed arbrawf i ddangos fod deinameit, fel unrhyw ffrwydron eraill, yn gallu bod yn beryglus o storio stoc enfawr yn yr un lle, ac iddo ddigwydd mynd ar dân. Roedd yr arbrawf hwn yn dangos pwysigrwydd cadw'r stôr deinameit mewn lle hollol ddiogel.

Roedd nifer helaeth o chwarelwyr yn bresennol yn ystod yr arbrofion hyn hefyd. Tybed faint ohonynt oedd yn sylweddoli eu bod wedi cael y fraint o fod yn bresennol yng nghwmni un o ddyfeiswyr a gwyddonydd amlycaf y ganrif? Oes yna draddodiad yn rheulu ambell un ohonoch fod un o'ch cyn-deidiau wedi cyfarfod Alfred Nobel tra ar ei ymweliad â Llanberis?

Gallt Pen Cefn

Rwy'n siŵr fod nifer o drigolion y Waunfawr yn cytuno fod gallt Pen Cefn yn hynod o serth, ac fe brofodd y tywydd rhewllyd diweddar y gall greu pob math o anawsterau i yrrwyr ceir. Ond wydddech chi fod cynllun wedi cael ei ystyried ar un cyfnod i liniaru rhywfaint ar serthedd yr allt?

Ar y pedwerydd o fis Hydref 1894, cyfarfu pwyllgor arbennig o aelodau a swyddogion Cyngor Sir Gaernarfon i drafod y posibilrwydd o dorri crib Pen Cefn er mwyn cwtogi'r allt. Byddai'r cynllun, pe bai wedi ei fabwysiadu, wcdi costio £1,300, swm enfawr yn y cyfnod hwnnw.

Wedi trafodaeth, ac ar ôl adrodd i bwyllgor llawn Syrffewr y Sir, penderfynwyd peidio symud ymlaen â'r cynllun, gan y byddai'n golygu y byddai gelltydd serth yn parhau ar y naill ochr i Ben Cefn hyd yn oed pe gellid torri copa'r bryn ymaith.

Felly, chi drigolion y Waunfawr a fethodd gyrraedd cartref yn ystod yr eira mawr diwethaf (a phob eira mawr ers dros ganrif o ran hynny!) rhaid diolch (neu felltithio) penderfyniad pwyllgor Syrffewr y Sir, 'nôl yn 1894.

Hanes Teulu

Mae cyfaill o Gaernarfon yn ceisio gwybodaeth am deulu o ardal Penisarwaun a Llanrug sydd â chysylltiadau â Harlech a Blaenau Ffestiniog. Mae ganddo adroddiad am gynhebrwng yn Llanrug yn 1939, ond y gladdedigaeth yn y Blaenau. Mae'n holi am

gysylltiadau teulu Llys Dorfil (Moses Jones neu Moss, a'i blant, Wil a Rita) â theulu Bod Ifor a theuluoedd Bron Rhythallt, Waen Hywel a fferm y Gors.

Dim ymateb

Chafwyd dim ymateb o gwbl i gynnwys colofn y mis diwethaf; peth go ddieithr. Tybed a rewodd y llinellau ffôn hefyd yn y tywydd gerwin? Cofiwch anfon unrhyw sylw neu ymholiad ynglŷn â hanes bro'r 'Eco' i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).

DRAENOG



sports council wales
cyngor chwaraeon cymru

Plas Menai

National Watersports Centre
Canolfan Cenedlaethol Chwaraeon Dŵr

Daeth brôshyr ('o' efo to bach, nid 'a') drwy'r drws 'cw y dydd o'r blaen yn cynnig cyrsiau amrywiol ym Mhlas Menai, sef Canolfan Cenedlaethol Chwaraeon Dŵr, sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Chwaraeon Cymru. A dyna'r unig eiriau Cymraeg yn

yr holl beth. Roedd hyd yn oed y llythyr i ganlyn y brôshyr yn uniaith Saesneg. Llongyfarchiadau mawr i'r Sborts Cownsul ac i fanijyr Plas Menai am wneud ymdrech mor arbennig i annog Cymry lleol i ddefnyddio'u canolfan.

GWASANAETH GOFAL CARTREF Caredig cyf

GOFALU AM EIN CYMUNEDAU

- ASESU MEWNOL A CHYNLLUN GOFAL
- GOFAL PERSONOL-BATHIO
- CYMORTH I GODI A MYND I'R GWELU
- EISTEDD YN YSTOD Y DYDD A GYDA'R NOS
- GLANHAU • SIOPA • COGINIO • OWTIN
- CEFNOGI POBL
- CYSYLLTU A GWASANAETHAU ARBENIGOL

A ydych yn hoffi gweithio a phobl neu ffansi gyrfar newydd?

•Mae Caredig Cyf yn awyddus i gyflogi pobl lleol i weithio gyda'n cwmni. Mae hyfforddiant a chefnogaeth trwyadl ar gael. Rydym yn recriwtio yn gyson fel mae'r cwmni yn ehangu ac angen gweithwyr i weithio unai rhan amser, amser llawn neu gyda'r nos. Am fanylion pellach cysylltwch a-

Iola neu Ellis Wyn Jones ar-

Bangor 01248 672622 • Llun i Gwener • Oriau'r Swyddfa 9-5pm.

UNED F3 • INTEC • Ffordd y Parc • Parc Menai • Gwynedd LL57 4FG
FFON-01248 672622 • FFACS- 01248 672601
EBOST- post@caredig.com

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser - Aneuryn Jones a'r staff

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

EISTEDDFOD BENTREF
Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol yr Eisteddfod yn ddiweddar ac etholwyd y canlynol yn Swyddogion: Llywydd - Deilwen Hughes; Is-Lywydd - Eleri Moss; Ysgrifennydd: Rita Dauncey Williams; Is-Ysgrifennydd: Lowri Evans; Trysorydd: Gwyneth Jones; Is-Drysorydd: Nan Jones; Ysgrifennydd Celf a Chrefft: Manon Dauncey Griffiths; Ysgrifennydd Tariannau: Nora Parry; Ysgrifennydd Dawnsio: Siân Harris a Swyddog y Wasg: Glenys Griffiths. Pasiwyd i gynnal yr Eisteddfod eleni ar ddydd Sadwrn Tachwedd 7fed, a'r Noson Dawnsio ar nos Fawrth, Tachwedd 3ydd.

CLWB BRO BETHEL. Yn anffodus, oherwydd tywydd garw, rhaid oedd canslo cyfarfod mis Chwefror. Ar wahoddiad y Pennaeth, yr Ysgol Gynradd fydd y man cyfarfod y tro nesaf, sef Mawrth 3ydd, a gofynnir i bawb ymgynnull am 1.00 o'r gloch.

MERCHED Y WAWR. Yng nghyfarfod Chwefror y wraig wadd oedd Rhian Williams o Gwmni Siwgr a Sbeis, Llanrwst. Yn dilyn croeso gan y Llywydd, Mair Price, cafwyd sgwrs ddiddorol ganddi yn olrhain hanes sefydlu'r Cwmni dros ugain mlynedd yn ôl gyda'i ffrind, Rhian Owen. Erbyn hyn mae'r Cwmni wedi ehangu cryn dipyn ac yn cyflogi oddeutu 20 o bersonau ac yn dosbarthu ei gynnyrch dros ardal eang mor bell ac Aberystwyth. Roedd wedi dod â chyflenwad o nwyddau'r Cwmni gyda hi a phawb wedyn yn cael cyfle i brynu a phrofi danteithion o'r safon gorau. Diolchwyd yn gynnes iawn iddi am noson gartrefol braf gan Rhian Hughes. Yn dilyn, dros baned, hysbyswyd yr aelodau am nifer o lythyrau oedd wedi dod i law yn ymwneud â'r Mudiad.

Llongyfarchwyd Lois, merch Margaret Druce, ar enedigaeth Gwydion Ifan, ac hefyd Gwenan, merch Brenda Jones, ar enedigaeth Owain Siôn. Dymunwyd yn dda i Gwenan, merch Anne Elis, ar ei phriodas â Cemlyn yn ddiweddar ac hefyd i Elizabeth a John Evans ar ddathlu Priodas Aur. Llongyfarchwyd Alaw, wyres Gwyneth Price, ar ei llwyddiant yn chwythu'r corn yn Eisteddfod Garndolbenmaen ac anfonwyd cofion at Alys Jones a Gwyneth Williams, y ddwy wedi cael codwm a thorri asgwrn.

Llwyddodd Eirlys a Glenys i gadw'n ddistaw am ddwy awr er budd Pwyllgor yr Anabl, a diolch i bawb am eu noddi. Gofynnir yn

garedig am arian Swper Gŵyl Ddewi £12.50 erbyn Mawrth 1af (i Glenys neu Beti), a bydd y bws yn cychwyn o'r Cysegr am 7:00, nos Fercher, Mawrth 11eg.

YR YSGOL GYNRADD. Atgoffir rhieni sydd â phlant, unai yn 3 oed cyn 1 Medi 2009 ac yn dymuno mynediad rhan amser i'r ysgol, neu sy'n 4 oed cyn 1 Medi 2009 ac yn dymuno mynediad llawn amser i Ysgol Bethel, i gysylltu â: Mr Dylan Parry, Pennaeth Mewn Gofal, Ysgol Bethel ar (01248) 670663 cyn gynted ag y bo modd a chyn 1 EBRILL 2009 er mwyn cofrestru eu plant. Eleni bydd rhaid i'r plant Meithrin presennol (dosbarth Mrs Llwyd) hefyd wneud cais i fynychu'r dosbarth Derbyn ym Medi 2009.

DIOLCH. Dymuna John ag Elizabeth Evans, Pen Parc, ddiolch i'r plant, teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd wrth ddathlu eu Priodas Aur ar Chwefror 14eg. Braf iawn cael byw mewn ardal mor garedig.

Yma down i gofio pum deg
- mlynedd

Yma 'leni, chwaneg
O Aur Duw ar fodrwy deg,
A dwy law'n un delyneg.

RICHARD LLWYD JONES
CYMDEITHAS LENYDDOL.

Cyfarfu'r aelodau y mis yma yn Festri Bethel gyda Ieuan Williams yn llywyddu. Croesawyd pawb ynghyd gyda chroeso arbennig i'r siaradwr gwadd, sef R.J.H. Griffith (Machraeth). Gyda'i destun 'Cymeriadau' cafwyd hanes nifer o bersonau a oedd wedi creu argraff arno dros y blynnyddoedd. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan Richard Lloyd Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Festri Cysegr yng nghwmni Robert Jones.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partion rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYD CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
wefan: www.ydyncig.co.uk

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR
6 a.m.-7.30 p.m.
(Llun-Sadwrn)
6 a.m.-3 p.m. (Sul)

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

DIOLCHIADAU. Dymuna Kathleen, Norah a Joan ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli eu brawd annwyl, Elwyn.

LLONGYFARCHIADAU i Ian (Tan Dinas) a Sarah ar enedigaeth eu mab, Ceian Morgan.

DIOLCHIADAU. Dymuna Ian a Sarah ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd ar enedigaeth Ceian Morgan.

LLONGYFARCHIADAU i Ian Parry, Peris View, ac i Carys Hughes sydd yn dathlu eu pen-blwyddi yn un ar hugain oed.

BABI NEWYDD.

Llongyfarchiadau i Carys Hughes ar enedigaeth ei mab bach ac i Ann Hughes, Maes Padarn ar fod yn nain am y tro cyntaf. Hefyd i Joyce Jones, Dôl Elidir ar fod yn hen nain am y tro cyntaf.

Llongyfarchiadau hefyd i Denise Pitt ar enedigaeth ei mab bach ac i Elizabeth Pitt, Dôl Elidir ar fod yn hen nain eto.

DYMUNWN wellhad buan i Janet Pitt ar ôl bod yn yr ysbyty

ond sydd wedi cael dod adref erbyn hyn. Hefyd i'w chwaer, Lynda, sydd ddim wedi bod yn dda yn ddiweddar.

CYDYDMEIMLO. Ar 25 Ionawr bu farw Mr Elwyn Hughes, hogyn o Lanberis cyn symud i Fangor i fyw. Cydymdeimlwn yn fawr â'i weddw, Menna, ei fab, Gareth a'i wraig, Rebecca, ei wyrion Tomos, Osian ac Anest fach, Maes Padarn, a'i chwiorydd, Kathleen, Norah a Joan.

DIOLCHIADAU. Dymuna Gwenllian a theulu y diweddar Gwilym Owen Roberts, Weirglodd Goch, Penisarwaun, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad, yn ymweliadau, cardiau a galwadau ffôn yn ystod eu profedigaeth o golli Gwilym. Diolch arbennig i Dr H. Roberts, Waunfawr, y Canon Tegid Roberts, yr ymgymerwyr E.W. Pritchard, Morfa Nefyn am y trefniadau trylwyr, ac i'r merched am baratoi y te angladd. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gronfa Ymchwil y Galon.

DRAENOG

YR YDYM NI HEFO EITHAF
GODDEFGARWCH YN
YSTYRIAETH I
CYFFURIAU YN GWESTYR
HEIGHTS I SICYRHAU BOD
POLISI YN CAEL EU
CEFNOGI GAN YR
AWDURDODAU A WEDI
PENDERFYNU GWEITHIO

WE HAVE A ZERO TOLERANCE POLICY IN REGARDS TO DRUGS AT THE HEIGHTS HOTEL. TO ENSURE THAT THIS POLICY IS UPHELD WE HAVE DECIDED TO WORK ALONGSIDE THE LOCAL DRUGS UNIT AND THE PREMISES WILL BE SEARCHED ON A REGULAR BASIS.

Welc arwydd dwyicithog. Mae'r darllenydd yn tybied mai Cymraeg yw un iaith ac o bosibl mai Saesneg yw'r llall. Rhag ofn nad yw'r ysgrifen yn eglur iawn yn y naill iaith na'r llall, dyma sydd i'w weld, ac mae'r cyfan mewn prif lythrennau, gyda llaw:

YR YDYM NI HEFO EITHAF
GODDEFGARWCH YN
YSTYRIAETH I
CYFFURIAU YN GWESTYR
HEIGHTS I SICYRHAU BOD
POLISI YN CAEL EU
CEFNOGI GAN YR
AWDURDODAU A WEDI
PENDERFYNU GWEITHIO

**OCHR YN OCHR A
AWDURDODAU LLEOLI A
FYDD YN CAEL EI
ARCHWYIO YN
RHEOLAETH.**

WE HAVE A ZERO
TOLERANCE POLICY IN
REGARDS TO DRUGS AT
THE HEIGHTS HOTEL. TO
ENSURE THAT THIS
POLICY IS UPHELD WE
HAVE DECIDED TO WORK
ALONGSIDE THE LOCAL
DRUGS UNIT AND THE
PREMISES WILL BE
SEARCHED ON A REGULAR
BASIS.

Rŵan, 'da chi'n gwybod!



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

PWY SY'N COFIO?



EIRA MAWR 1979



Do, fe gafwyd eira a rhew yn ystod y mis a aeth heibio, a bu nifer o bentrefi'r fro mewn trafferthion. Ond pwy sy'n cofio eira mawr 1979? Anfonwyd y lluniau gan Mrs Ann Hayes, Rhosbodruall (Ann Hughes, gynt o Ddeiniolen). Mae'r llun cyntaf

yn dangos yr olygfa yn edrych i lawr Stryd Newydd, Deiniolen, a'r ail yn dangos y drafferth a gai'r trigolion i gyrchu eu papur newydd a'u sigarets yn ystod mis Mawrth y flwyddyn honno. Felly, rhag ofn nad yw'r gaeaf drosodd eto...



Llyn Padarn wedi rhewi 1969



Y sglefwrwyr yw Bryn Lewis, Owen (Now) Roberts, Meirion Davies (anfonwyd y llun), Alan Wagner ac Alwyn Griffiths



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

Dilys

Trin Gwallt Teithiol

Trin gwallt merched,
dynion a phlant
yn eich cartref



Symudol:

07919 897898

Ffôn:

(01286) 871869

Cymdeithas y Gronyn Gwenith

yn cyflwyno

**O GAREG BOETH
I BORTH YR AUR**

Stori bywyd hanner gweinidog *Gan Harri Parri*

Theatr Seilo Caernarfon
Mawrth 31 - Ebrill 4 am 7.30

Oedolion £5. • Pensiynwyr a Phlant £4. • Partion (dros 10) £4.

Am Docynnau Cysylltwch â'r Trefnydd Perfformiadau
David Elwyn Williams - (01286) 677016

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YR YSGOL GYMUNED

Ymweliadau, dydd Llun, 9 Chwefror: Galwodd aelod o'r Heddlu draw i roi sgwrs i'r plant yn eu dosbarthiadau, a daeth Mr Hywyn Williams, Swyddog Addysg gyda Pharc Genedlaethol Eryri, i roi sgwrs ddiddorol i Bl. 3 a 4 yn y pwn.

Hefyd cafodd plant dosbarth y Babanod gyfle i ymuno â phlant Ysgol Llanrug yn ystod y bore i weld perfformiad o 'Martha Drafferthus' gan Gwmni'r Frân Wen. Diolch am y croeso a gafwyd yno.

Adran yr Urdd. Mae pawb yn brysur iawn yn ymarfer ar gyfer amryw o gystadlaethau yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Diolch i'r plant a'u rhieni am eu cydweithrediad ac i bawb sydd wedi bod yn brysur yn hyfforddi. Dymunwn bob lwc iddynt ddydd Sadwrn, 28 Chwefror, yn Ysgol Brynrefail.

CRONFA'R PENSIYNWYR. Enillydd Pêl Bonws Loteri mis Ionawr oedd Mrs Rennie Morris, 2 Llys y Gwynt gyda Rhif 39. Llongyfarchiadau!

GENEDIGAETH. Croeso cynnes i Twm Guto, mab bach a anwyd i Sioned a Martin, Llys yr Awel, brawd bach i Elis ac ŵyr i Michael a Janice ac Elfed a Linda. Pob bendith i chwi fel teulu.

LLONGYFARCHIADAU i Miss Mair Foulkes, Bryn Hyfryd, ar achlysur pen-blwydd arbennig iawn. Pob dymuniad da i'r degawd nesaf.

DEUNAW OED. Pob bendith a llwyddiant i Dylan Roberts, 18 Bryn Tirion; Rhian George, Sŵn yr Engan, Brynrefail a Iolo Wyn Hughes, Llys Arddun - y tri yn gyn-ddisgyblion o'r Ysgol Gymuned.

GWELLAD. Gyda'r tywydd miniog oer yn parhau, gobeithio fod pawb sy'n teimlo'n sâl yn gwella. Codwch eich calon, mae'r eirysiau tlws yn clochdar bod y gwanwyn wrth y drws.

YSGOL SUL BOSRA. Yn fuan wedi'r hanner tymor bydd prysurdeb mawr ar droed ar gyfer y Cymanfaocdd. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr ym mis

Mai a Chymanfa'r Methodistiaid ym mis Mehefin.

APEL Y CAPEL. Y mae Calendr 2009 yn nwylo Ffiona y mis hwn. Gellir prynu diwrnod lwcus am £1. Diolchir am eich cefnogaeth.

PWYLLGOR Y NEUADD GYMUNED. Atgoffir chwi, aelodau'r Clwb Cant, ei bod hi'n amser adnewyddu'r Aelodaeth. Croeso mawr i aelodau newydd, yn enwedig chwi rieni ifanc sydd â phlant yn yr ysgol ac a fyddant yn elwa o'r Neuadd Gymuned yn helaeth hyd at eu glasencynnod.

Ein gweithgareddau pellach i godi arian tuag at y gost o redeg y Neuadd yw:

- Miri Pasg, nos Fercher, 1 Ebrill, am 6.00pm
- Miri Mai, dydd Iau, 21 Mai
- Ras Peli, ar 16 Gorffennaf.

Diolchwn ymlaen llaw am eich cefnogaeth arferol.

Tynnwyd Clwb Cant Chwefror a'r enillwyr lwcus yw: Geraint Williams, Careb, 8 Bryn Eglwys a Manon Glyn, Tawelfa.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â Mrs Nannie Evans, 26 Bryn Tirion, ar ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yng nghyfraith, Eirianwen Evans o Frynrefail.

ELAINE'S. Dymuna cwsmeriaid o'r pentref hwn yn dda i'r dyfodol i Elaine, Gemma a'r holl staff cyfeillgar a gweithgar. Ymlaen â'r grib a'r siswrn!

EGLWYS SANTES HELEN. Dydd Gwener y Grogolith. Cynhelir Awr Dawel am 2.00 y pwn. Yn dilyn y gwasanaeth hwn addurnir yr Eglwys ar gyfer y Pasg.

SUL Y PASG. Gweinyddir y Cymun Bendigaidd am 11.00 y bore.

DIOLCH. Dymuna Miss Mair Foulkes, 3 Tai Bryn Hyfryd, ddiolch yn fawr am y blodau, anrhegion, cardiau a galwadau ffôn ar achlysur ei phen-blwydd yn wyth deg oed. Diolch hefyd am yr arian, sef £500, tuag at gronfa Mr M. Pepper i gael ei dywys i gofio am ei dad.

DIOLCHIADAU. Dymuna Gwenllian a theulu y diweddar Gwilym Owen Roberts, Weirglodd

Goch, Penisarwaun, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad, yn ymweliadau, cardiau a galwadau ffôn yn ystod eu profedigaeth o golli Gwilym. Diolch arbennig i Dr H. Roberts, Waunfawr, y Canon Tegid Roberts, yr ymgymrwyr E.W. Pritchard, Morfa Nefyn am y trefniadau trylwyr, ac i'r merched am baratoi y te angladd. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gronfa Ymchwil y Galon.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen, (650799)

DYMUNIADAU DA. Pob dymuniad da i Derlwyn, Joanne, Tomos a Cai, Bryn Berllan, Ceunant, fydd yn symud i fyw i Ganada ym mis Mawrth.

NANT PERIS

Llinos Jones, (01286) 871820

CYDYMDEITHAS EGLWYS SANT PADARN 2008/9. Byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi, Nos Iau, Mawrth 5ed am 7 o'r gloch yn Oriel Eryri.

Rydym yn falch o groesawu Mrs Olwen Ebrell o Coventry, gynt o Lanberis, i roi sgwrs am 'Closiaid Nant Peris'.

Mae croeso i aelodau o Gymdeithas Y Closiaid sydd â diddordeb, ddod i'r noson arbennig yma. Bydd lluniaeth ysgafn, a Chôr Lleisiau Lliwedd yn diddori.

PEN-BLWYDD HAPUS i Nicholas Welsby a fydd yn 21 ar 7 Chwefror.

YSGOL BRYNREFAIL PÊL DROED

Cwpan Eryri/Cwpan Cymru Genethod dan 13

Rownd Gyn-derfynol

Ysgol Tywyn 3-3 Brynrefail

Mari Elin Gibbard (3)

(Brynrefail yn curo 2-1 ar giciau o'r smotyn)

Cwpan Cymru, rownd 16 olaf

Ysgol Brynrefail 0-0 Castell

Alun (Colli 6-5 ar c.o.s.)

Genethod dan 14

Ffeinal Cwpan Eryri

Brynrefail 6-0 Caergybi

Mari Elin Gibbard, Elaine Roberts (3), Anna Wyn Jones.

Cwpan Cymru, rownd 16 olaf

Brynrefail 2-1 Hawarden

Elaine Roberts, Mari Gibbard.

Cwpan Eryri/Cwpan Cymru Bechgyn dan 16

Ffeinal Cwpan Eryri

Ysgol Ardudwy 0-9 Brynrefail
Gwion Williams, Gethin Maxwell,
Ian Williams (2), Richard
Cashman (2), Louis Williams,
Ezra Warren Jamie Mcdaid.

Cwpan Cymru, Rownd 16 ola

Brynrefail 3-2 Rhosnesni
(Wrecsam) Dyfan Coles, Gethin
Maxwell, Richard Cashman.

TWRNAMENT PÊL-DROED 5-BOB-OCHR YR URDD

Bechgyn Blwyddyn 7 ac 8

Brynrefail 2-0 Caergybi

Ian Darwood, Huw Owen.

Brynrefail 1-2 Rhyl

Huw Owen.

Brynrefail 1-3 Glan Y Môr

Guto Griffith..

Brynrefail 2-1 Dinas Bran 'B'

Ian Darwood (2).

Brynrefail 7-0 Creuddyn

Ian Darwood (4), Iolo Hughes,

Guto Griffith, James Bell.

Genethod Blwyddyn 7 ac 8

Brynrefail 1-3 Moelwyn

Lois Jones.

Brynrefail 0-3 Glan y Môr

Brynrefail 2-3 Llangefni

Lois Jones (2).

Brynrefail 3-1 Botwnnog

Lois Jones (2), Mari Gibbard.

Brynrefail 0-1 Caergybi

Brynrefail 4-0 Dinas Bran

Hanna Tulliver (3), Mari Gibbard.

Brynrefail 4-1 Rhyl

Hanna Tulliver (2), Mari Gibbard,

Lois Jones.

Bechgyn Blwyddyn 9 ac 10

Brynrefail 'A' 2-1 Syr Hugh

Owen

Gruffydd John, Jamie Mcdaid.

Brynrefail 'A' 2-1 Botwnnog

Jamie Stevens, Sion Kyle.

Brynrefail 'A' 8-0 Creuddyn

Sion Kyle (3), Jamie Mcdaid (2),

Daniel Bell, Gruffydd John,

Jamie Stevens.

Brynrefail 'A' 8-0 Dinas Bran

Jamie Mcdaid (3), Sion Kyle (2),

Gruffydd John, Jamie Stevens,

Tomos Emlyn.

Brynrefail 'B' 4-3 Moelwyn

Aaron Gwyn, Gerallt Jones,

Mathew Edwards.

Brynrefail 'B' 1-6 Glan Clwyd:

Iwan Jones.

Brynrefail 'B' 2-3 Y Rhyl

Gerallt Jones, Mathew Edwards.

Rownd Gyn-Derfynol

Brynrefail 'A' 2-1 Glan Clwyd

Tomos Emlyn, Sion Kyle.

Rownd Derfynol

Brynrefail 'A' 3-1 Botwnnog

Daniel Bell (2), Tomos Emlyn.

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Yn Gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys-
PENISARWAUN • DEINIOLLEN • LLANRUG A LLANBERIS

Ffôn i'wch Dylan (Llys)

ar 871833

Symudol-07778127394

Gwasanaeth Teimladwy
Urddasol a Phersonol
24 awr y dydd
Capel Gorffwys Preifat

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDEA

Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIDODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

ARVONIA

COAST TOURISM
cpt

• Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.

• Rhaglen Triplau Dyddiol.

• Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.

• Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.

• Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonian.co.uk • Gwefan: www.arvonian.co.uk

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

PROFEDIGAETHAU. Bu mis Chwefror yn anarferol yn ei golledion drwy farwolaeth i'r gymdogaeth. Collwyd Eirianwen Evans, 1 Ffrwd Madog, o'n plith ar Chwefror 2il yn 82 mlwydd oed. Yna daeth y newydd trist ddeuddydd yn ddiweddarach am farwolaeth PC Non Wyn Parry, Llys Myfyr, yn 45 mlwydd oed. Yna, ar Chwefror 12fed, bu farw Islwyn Williams, Dinorwig House, yn Ysbyty Gwynedd yn 66 mlwydd oed. Bu colli mam, priod a mab yn brofedigaeth lem i'r tri theulu cysylltiedig ac mae ein cydymdeimlad dwysaf fel pentrefwyr â hwy yn eu colled a'u hiraeth.

YR EGLWYS

BRESBYTERAIDD COFION.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf gwelsom golli presenoldeb Maurice Jones, Meillionen, o'n hoedfaon oherwydd gwaeledd. Da deall erbyn hyn ei fod yn gwella'n raddol. Edrychwn ymlaen am ei groesawu'n ôl yn

fuan iawn.

SULIAU MAWRTH

- 1 5.30, Parch Dafydd Ll. Hughes, Caernarfon *Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.*
- 8 5.30: Parch Marcus Wyn Robinson, Bethel.
- 15 5.30: Parch Reuben Roberts, Bontnewydd.
- 22 5.30: Mr Richard Lloyd Jones, Bethel.
- 29 10.00: Parch Geraint Hughes, Bethesda.

THEATR SEILO. Yn ôl ein harfer byddwn fel eglwys yn trefnu noson eto eleni i ymweld â'r Theatr i berfformiad gan Gymdeithas y Gronyn Gwenith.

Mae'r Gymdeithas wedi perfformio yn ddi-dor ers 1977 a hwn fydd y perfformiad olaf un, o nos Fawrth, Mawrth 3lain i nos Sadwrn, Ebrill 4ydd. Bydd y pwyslais eleni ar gomedi yn hytrach na phasant, pryd y cyflwynir 'O Garreg Boeth i Borth yr Aur' gan Harri Parri.



Cai a Gruffudd ap Ieuan o Glwt-y-Bont efo y gerbil a wnaethant yn yr eira diweddar.

yn ddiweddar.

ESTYNNWN

ein cydymdeimlad llwyrat at Mr Iorwerth Evans, 5 Hafod Olau, yn dilyn ei brofedigaeth o golli chwaer yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr Ken Jones, Green Terrace, a'r holl deulu yn eu brofedigaeth o golli ei briod, Mrs Evelyn Jones.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd at Mrs Helen Lewis a'r teulu yn eu brofedigaeth o golli gŵr a thad, Mr Richard Arfon Lewis.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Marina Williams, Rhydfadog, a'r teulu yn eu brofedigaeth o golli gŵr a thad, Mr Huw Williams.

DIOLCHIADAU. Dymuna Gwennllian a theulu y diweddar Gwilym Owen Roberts, Weirglodd Goch, Penisarwaun, ddiolch o galon am bob arwydd

Cystadleuaeth berffaith i nofelwyr y dyfodol

Oes gennych chi ddechrau perffaith i nofel? Os oes, mae gan Gyngor Gwynedd y gystadleuaeth i chi. Fel rhan o ddatliadau Diwrnod y Llyfr, mae'r Cyngor yn cynnal cystadleuaeth ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd Gwynedd. Ysgrifennwch baragraff agoriadol i nofel neu stori fer ddychmygol yn dechrau gyda'r frawddeg: 'A dyna pryd y gwelais i o...' Bydd enillydd y wobwr gyntaf yn ennill £50, gyda dwy wobwr gysur o £25. Anfonwch eich cynigion at Reolwr Gwasanaethau Defnyddwyr, Canolfan Llyfrgell Caernarfon, Allt Pafiliwn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AS neu trwy eu hanfon ar e-bost at: llyfrgell@gwynedd.gov.uk erbyn dydd Llun, 9 Mawrth 2009 gan nodi eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn a'ch blwyddyn ysgol.

o gydymdeimlad, yn ymweliadau, cardiau a galwadau ffôn yn ystod eu brofedigaeth o golli Gwilym. Diolch arbennig i Dr H. Roberts, Waunfawr, y Canon Tegid Roberts, yr ymgymerydd E.W. Pritchard, Morfa Nefyn am y trefniadau trylwyr, ac i'r merched am baratoi y te angladd. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gronfa Ymchwil y Galon.

Dymuna Martin Worth, Niagara, ddiolch yn ddiffuant iawn i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei lawdriniaeth yn ddiweddar. Diolch yn arbennig i feddygon a staff Ward Dulas Ysbyty Gwynedd am eu gwasanaeth a'u gofal diflino. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dymuna Glenys Roberts, 13 Maes Gwylfa, ddiolch o galon i'w theulu a ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn 80 oed ddechrau Ionawr. Diolch yn fawr iawn.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth barob yn

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674 460

Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd Ffôn: (872133)

Y GYMDEITHAS LENOYDDOL UNDEBOL.

Cyfarfu'r aelodau ar gyfer mis Ionawr yn Nhŷ Elidir a chroesawyd pawb ynghyd gan Mr John Llewelyn Williams. Anfonwyd ein cofion at Mrs M.C. Griffith, Mr Eifion Williams a Mrs Gwen Griffith, oedd wedi bod yn yr ysbyty. Dymunwyd adferiad buan iddynt i gyd. Hefyd braf oedd gweld Mrs Aileen M. Jones yn ei hôl wedi ei gwaeledd.

Y siaradwr gwadd oedd Mr Keith Jones, Rhiw Goch. Cawsom sgwrs ddiddorol am yr amgylchedd ganddo ac ar sut i

arbed a pheidio gwastraffu ynni. Roedd yn agoriad llygad i ni i gyd. Wedyn cafwyd cyfle i holi cwestiynau o'r llawr. Diolchwyd iddo gan Mr John Ll. Williams.

YSGOL GWUN GYNFL. Da iawn chi, y tîm pêl-rwyd, am gymryd rhan yn Nhwrnament Pêl-rwyd yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Plas Silyn, Penygroes yn ddiweddar. Hoffai'r tîm ddiolch i Miss Nia Roberts am eu hyfforddi.

GWELLHAD BUAN.

Anfonwn ein dymuniadau gorau am adferiad icchyd buan i bawb o'r pentref a fu'n wael neu'n derbyn triniaeth ysbyty

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Vesiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ALL700

AGE
Concern

Os byddwch yn cysylltu a swyddfa Age Concern, byddwch yn ymwneud â chynhyrchion penodol o Age Concern Enterprises Limited (ACEnt). Mae ACEnt wedi ei awdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfngiad yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gofrestrdedig.

A46VIAWST07 MC1178

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan:



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YR YSGOL GYNRADD

Croeso 'nôl i Mrs Llinos Evans, Dosbarth Derbyn, wedi ei chyfnod mamolaeth. Diolch i Miss Gwen Owens a dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd mewn ysgol yng Nghonwy.

Rydym yn dymuno gwellhad buan i Miss Einir Williams sydd yn anhwylyd ar hyn o bryd ac rydym yn edrych ymlaen i'w chroesawu yn ôl i'r ysgol wedi iddi wella.

Bu'n ddiwedd tymor prysur iawn. Perfformiodd yr adran Fabanod eu cyngerdd 'A yw Santa ar streic?', gyda'r Adran Iau yn perfformio 'Gwersyll Mordins'. Hefyd roedd plant y dosbarth Meithrin wrth eu boddau yn perfformio yn eu cyngerdd. Rhaid canmol pob un plentyn, o'r ieuengaf i'r hynaf, am wneud crystal. Da iawn chi!

Aeth Blwyddyn 1 a 2 i Theatr Seilo, Caernarfon, i weld pantomecim gan fyfyrwyr Coleg Menai. Enw'r sioe hwyliog a lliwgar oedd 'Porth yr Aur' a mwynhaodd y plant yn fawr iawn.

Daeth Howard Hughes atom cyn i'r ysgol gau i'n diddanu gyda'i Hud a Lledrith.

Diolch o galon i staff y gegin am eu gwaith caled wrth baratoi'r wledd o ginio Nadolig.

Ar nos Wener, Mawrth 27ain mae pwyllgor Ffrindiau'r Ysgol yn trefnu noson gymdeithasol yng Nghaernarfon yng nghwmni Gwibdaith Hen Frân a Dyfrig 'Topper' Evans. Cost tocyn yw £10. Mae bws wedi cael ei drefnu hefyd i hwyluso trefniadau teithio i bawb yn yr ardal. Bydd y bws yn cychwyn o Ddeiniolen ac yn mynd trwy Cwm y Glo, Glyntwrog, (erbyn 7 o'r gloch), Penbont, a Londis, Llanrug.

Bu disgyblion o'r adran Iau yn atgyfodi hen draddodiad y Fari Lwyd drwy greu Mari Lwyd a mynd o gwmpas yr ysgol yn canu am galennig.

Daeth Mr Dafydd Williams, tad Rhodri ac Aled, at blwyddyn 1 a 2 gyda lori bost i sôn am ei waith

fel postmon. Yn dilyn hyn cafodd blwyddyn 1 a 2 fynd ar ymweliad â'r Swyddfa Ddosbarthu ym Mangor er mwyn dysgu am daith llythyr. Bu'n fore difyr iawn a diolch i Liz a'r holl staff yno am eu croeso twymgalon.

Llongyfarchiadau i Lisa Louise Roberts, Blwyddyn 1, a fu'n fuddugol yn y Gystadleuaeth 'Bod yn Amlwg' a gynhaliwyd ar wefan Carys Ofalus. Cafodd fynychu y seremoni wobrwyo ym Mhorthmadog a chyflwynwyd ei gwobr iddi gan y Cynghorydd Stephen Churchman a Carys Ofalus, wrth gwrs!



Lisa Louise Roberts

Mae yna brysurdeb mawr wrth baratoi at yr Eisteddfod Gylch, a gynhelir eleni ar ddydd Sadwrn, Chwefror 28ain, yn Ysgol Brynrefail.

Daeth Andrew Settatee, sef gweithiwr ieuencid cyntaf Cynllun Efe, i'r gwasanaeth boreol i adrodd stori. Edrychwn ymlaen at ei groesawu yn ôl atom yn y dyfodol agos.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Llanrug o Ferched y Wawr ar nos Fawrth, 10 Chwefror yn y Ganolfan Gymunedol. Croesawodd Phyllis, y Llywydd, bawb i'r cyfarfod. Cyfeiriodd at farwolaeth un o'r aelodau, Beryl Thomas, a soniodd am yr holl

waith a gyflawnodd. Penderfynwyd fod y gangen yn rhoi cyfraniad tuag at Gymdeithas Alzheimers er cof am Beryl.

Diolchwyd i Mair Huws a Margaret Parry am gymryd rhan yn y Distawrwydd Noddedig. Cyflwynwyd tystysgrif i aelodau'r tîm a enillodd y drydedd wobrwyo yng nghystadleuaeth Bowlio Deg Rhanbarth Arfon; roedd pawb yn ymfalchio yn eu llwyddiant. Cynhelir Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail ar 28 Chwefror a gofynnwyd am gymorth a rhoddion i'r caffi ar y dydd.

Penderfynwyd cynnal y Ffair Ategolion ar yr un noson â'r Cyfarfod Blyneddol ym mis Mai. Cyhoeddwyd y cynhelir Cinio'r Llywydd yng ngwesty Oriel House, Llanellwyr ar 11 Ebrill; yr Wyl Haf ym Machynlleth ar 16 Mai a thaith i Iwerddon rhwng 19 a 21 Mehefin.

Y gŵr gwadd oedd Geraint Huws Roberts, yn enedigol o Lanrug ond sydd wedi ymgartrefu ym Mangor ers nifer o flynyddoedd. Ar hyn o bryd mae'n aelod o Gyngor Dinas Bangor a chyn ymddeol roedd yn brifathro ar Ysgol y Faenol.

Dechreuodd Geraint drwy sôn am ei gysylltiadau â Phenisarwaun. Yno y cododd ei hen daid dŷ o'r enw Glyn Arthur ac yn y tŷ hwn y magwyd ei fam cyn symud i Park Villa, Llanrug, ym 1914. Ganed Geraint yn Park Villa ac roedd ganddo nifer o atgofion am y pentref, y cymeriadau a'r straeon difyr. Cyfeiriodd at siopau ar Ffordd yr Orsaf sydd wedi hen ddiflannu bellach, megis siop Crossley, siop sinc, cigydd yn y Foelas, siop Newydd, siop John Evans Clocsiwr, siop Gig Wil Ore, siop ddillad David Haydn Griffith yn London House, siop Miss Davies Madryn House, siop Bob Barbar, becws Tegfan, ynghyd â siopau eraill yn Llanrug a Thanycoed. Roedd ganddo atgofion melys am ei ddyddiau ysgol ac am yr

athrawon, megis Miss A.B. Griffith, Miss Parry, Gwynant a Miss Williams, Ty'n Winllan.

Roedd i'r Capel Mawr le amlwg yn ei fywyd, yr oedfaon ar y Sul a'r seiat ar noson waith ac yn y capel y cynhelid Eisteddfod Gadeiriol Llanrug - pedair noson o eisteddfod gyda'r noson fawr ar y nos Wener.

Roedd gan Geraint gasgliad o luniau o'i hynafiaid ac o'i blentynod ei hun ac anogodd aelodau cangen Llanrug i gadw lluniau teuluol a chofnodi enwau'r rhai sydd yn y lluniau. Bu'n noson ddiddorol iawn ac, ar y diwedd, yn gyfle i nifer o aelodau rannu atgofion.

Paratowyd y baned gan Carys, Gwenda, Meirwen a Mair ac enillwyd y raffl gan Bethanne. Cynhelir y cyfarfod nesaf at 10 Mawrth pryd y bydd yr aelodau yn dathlu Gŵyl Dewi.

DIOLCHIADAU. Dymuna Arwyn a Rheon Thomas, ddiolch i bawb am eu cefnogaeth cyn ac yn ystod gwaeledd eu mam, sef Mrs Beryl Thomas, ac am bob cerdyn a chyfraniad er cof amdani tuag at Gronfa Alzheimers.

PROFEDIGAETH. Estynnir ein cydymdeimlad diffuant i Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, yn ei phrofedigaeth yn colli ei hŵyr annwyl, Wayne Mathew Kift, ar ôl cyfnod o waeledd brwnt. Roedd Wayne yn fab i'r ddiweddar Sylvia ac yn frawd i Ryan. Cafwyd gwasanaeth hollol breifat dan ofal y Parchedigion Marcus W Robinson a Dafydd Hughes. Yn bresennol yr oedd gofalwyr cartref Caredig ac aelodau o Antur Waunfawr, oedd yn gefnogol iawn i Wayne.

DYMUNA Dylan, 14 Bryn Moelyn, ddiolch o galon am y cardiau a'r anrhegion a gafodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 30 oed. Roedd yn bleser gweld grŵp o hen ffrindiau a chymdogion yn ymgynnull i ddathlu'r achlysur.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyd Clwb 100 mis Ionawr oedd: £20:

Pryd i Bawb

Beaffe blasus o safon
at bob achlysur

Priodas

Parti

Te Angladdau

Cinio Busnes

**CERID
MACKINNON**

Plas Tirion, Mawrth, Caernarfon.

Gwynedd LL55 4PY

(01286) 673190

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwyh

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus.
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith

01286 672898

Cartref

01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA



www.fframia.com

FFRAMIA

Parc Padarn, Llanberis

(01286) 870922

www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mw.

Mrs G. Kirkpatrick, 21 Hafan Elan; £7: Mrs J. Jones, 4 Disgwylfa; £5: Mrs C. Evans, 9 Nant y Glyn. Enillwyr Chwefror oedd £20: Mrs M. Roberts, Tai Minffordd; £7: Ellen Roberts, 7 Afon Rhos; £5: A.V. Owen, 4 Rhos Rug.

PROFEDIGAETH. Ar 19 Ionawr, yn sydyn iawn, bu farw Edward Glyn Jones yn 68 mlwydd oed. Un o hogia Llanrug oedd Glyn ac yn fab i Mrs Annie Ceinwen Jones a'r diweddar Hugh W. Jones. Cafodd ei ddwyn i fyny gyda'i chwaer, y ddiweddar Gwyneth, yn Gerallt, Pontrhythallt. Symudodd y teulu i fyw i Landudno yn y pumdegau. Ar ôl bod yn y Coleg Normal ym Mangor aeth i ddysgu i Llundain ac yna i Gaerffili.

Anfonwn ein cydymdeimlad at ei wraig, Carol, a'u dwy ferch, Ceri a Lynne a'u teuluoedd, a'i fam, Mrs Annie Ceinwen Jones sydd yn awr yn byw gyda'i nith yng Nghonwy. Er ei fod wedi ymgartrefu o Lanrug ers blyneddau roedd gan Glyn feddwl mawr o'r pentref a'r ardal.

DIOLCHIAU. Dymuna Gwennllian a theulu y diweddar Gwilym Owen Roberts, Weirglodd Goch, Penisarwaun, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad, yn ymweliadau, cardiau a galwadau ffôn yn ystod eu profedigaeth o golli Gwilym. Diolch arbennig i Dr H. Roberts, Waunfawr, y Canon Tegid Roberts, yr ymgymgyrwr E.W. Pritchard, Morfa Nefyn am y trefniadau trylwyr, ac i'r merched am baratoi y te angladd. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gronfa Ymchwil y Galon.

DIOLCHIAU. Dymuna Adrian a Bethan Evans, Bwcle, ddiolch i deulu a ffrindiau am bob dymuniad da ac am yr anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

BABI NEWYDD. Croeso i Erin Gwen, merch fach Ccnwyn a Lyn (Stad Talybont).

PROFEDIGAETH. Bu farw Mrs Gladys Williams, Lôn Las, ar Ionawr 24 yn 94 mlwydd oed. Cafodd ei geni a'i magu yn Coed Bolyn Mawr, Bethel, yn un o bedair o genod. Mynychodd Ysgol Bethel ac, wedi gadael, aeth i weithio i fferm Yr Erw, Pontrug. Wedi cyfarfod â Griffith, ei gŵr, fe ymgartrefodd ym Methel lle ganwyd Ken, y mab. Symudwyd i

Crawia i ffermio tyddyn Lôn Las, lle y trigodd am y gweddill o'i hoecs.

Cydymdeimlwn â'i chwaer, ei merch yng nghyfraith a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau i Mr Jack Hughes (Chemist), gynt o Penlon, Llanrug, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 100 oed ar 31 Mawrth.



Mr. Jack Hughes (Chemist) yn 100oed, Mawrth 31ain

Treuliodd gyfnod yn y Coleg cyn dechrau ei yrfa fel fferyllydd yn Llundain. Symudodd i Lanberis yn 1936 ac yna i Gaernarfon yn 1957. Wedi ymddeol yn 1973 un o'i brif ddiddordebau oedd teithio ar y cyfandir ac yn ddiweddarach yng ngwledydd Prydain. Bellach mae wedi ymgartrefu yng Nghartref Gwynfa yng Nghaernarfon. Mae yn edrych ymlaen o fis i fis am yr Eco, ac yn ei ddarllen o glawr i glawr.

EISTEDDFOD PENTREFI LLANRUG A CHWM Y GLO

Diolch o waelod calon i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant Eisteddfod Pentrefi Llanrug a Chwm y Glo 2008. Diolch arbennig iawn i'n noddwyr hael, sef Edgar a Pat, Swyddfa'r Post, Llanrug; Gwynfa Pritchard, Gwerthwr Llefrith; Merched y Wawr, Llanrug; Moduron Arvon; London Garage Limited, Cwm y Glo; London Garage Service Station, Cwm y Glo; Bryn ac Angela, Siop Gig Wavell; Haf Roberts, Cwmni Cyfieithu Sillaf; Siop Gwallt Elaine's a Chyngor Cymuned Llanrug.

Cynhelir Cyfarfod o Bwyllgor Eisteddfod Pentrefi Llanrug a Chwm y Glo 2009 ar 25 Mawrth yn Festri Capel y Rhos am 7.30. Croeso cynnes iawn i aelodau newydd.

Canlyniadau'r Cystadlaethau Llwyfan

Dosbarth Derbyn. Unawd: 1. Tomi Llywelyn; 2. Sara; 3. Deian. Llefary: 1. Tomi Llywelyn; 2. Deian; 3. Nanw.

Blwyddyn 1 a 2. Unawd: 1. Leisa* Enillydd Cadair Lowri. 2. Iwan; 3. Elliw. Llefary: 1. Osian; 2. Molly; 3. Cara Wyn a Leisa.

Dawnsio Disgo. 1. Chloe a Sophie; 2. Kate; 3. Rhianon a Steph a Grŵp Cŵl.

Parti Dawns Werin. 1. Parti Robin; 2. Parti Math.

Côr Babanod hyd at Fl.2. 1. Côr Bl 1 a 2 Llanrug.

Blwyddyn 3 a 4. Unawd: 1. Ceri; 2. Miriam; 3. Ryan a Siôn. Llefary: 1. Ceri; 2. Miriam; 3. Deian.

Unawd/Deuawd Stepio. 1. Lois a Maredd.

Grŵp Pop. 1. Gwibdaith Hen

Blant.

Blwyddyn 5 a 6. Llefary: 1. Math; 2. Osian. Unawd: 1. Gwern; 2. Llinos.

Sgets. 1. Y Bwletin Bro + Y Fainc; 2. Y Peth yn yr Awyr; 3. Yr Anrheg.

Unawd Offerynnol Cynradd: 1. Math; 2. Deian; 3. Gwern.

Uwchradd: 1. Declan Jones* Enillydd Gwobr W. Park Jones; 2. Rhodri; 3. Elain a Llywelyn.

Meimio i Gân Gyfoes Gymraeg: 1. Y Tramps; 2. Hogan Wirion.

Parti Llefary Cynradd: 1. Genod Drwg; 2. Parti Ryan. **Uwchradd:** 1. Parti Haf.

Parti/Côr Unsain Bl 3 a 4: 1. Parti Cŵl (parti merched); 2. Y Côr Meibion (parti bechgyn).

Deuawd: 1. Anna a Chloe; 2. Tomi a Leisa; 3. Hanna a Mari.

Unawd Uwchradd: 1. Anna Wyn; 2. Mari Gibbard; 3. Heledd Roberts.

Llefary Uwchradd: 1. Anna Wyn; 2. Llio Emyr; 3. Math Emyr ac Elain Roberts.

Unawd Cân Werin neu Gerdd Dant: 1. Mari Gibbard; 2. Beca George; 3. Anna Wyn.

Parti/Côr Uwchradd: 1. Côr Siân.

Canlyniadau Celf a Chrefft

Arlunio

Meithrin/Derbyn: 1. Benjamin Ifan Jones-Ellis; 2. Tomi Llywelyn; 3. Elis Edwards a Cari Pritchard.

Blwyddyn 1 a 2: 1. Osian Eifion Land; 2. Leisa Gwennllian; 3. Cian Gibbard;

Blwyddyn 3 a 4: 1. Sion Eifion Land; 2. Megan Wyn Pritchard; 3. Lleucu Brookes a Ryan James.

Blwyddyn 5 a 6: 1. ?? Cwm y Glo; 2. Math Roberts; 3. Gwydion Rhys Williams ac Osian Edwards.

Blwyddyn 7 ac 8: 1. Iwan Rhys Jones; 2. Anna Wyn Jones; 3. Maredd Lois a Hanna Tulliver.

Blwyddyn 9 a 10: 1. Tomos Huws Tulliver* Enillydd Tlws Emma Bernard; 2. Josh Robinson.

Blwyddyn 11, 12 a 13: 1. Llywelyn Williams.

Tri Dimensiwn

Meithrin/Derbyn: 1. Ellis Gruffudd Edwards; 2. Nanw Llwyd; 3. Maredd Llwyd Roberts ac Erin Gibbard.

Bl. 1 a 2: 1. Moli Wyn Pritchard; 2. Osian Land; 3. Cara Wyn.

Bl. 3 a 4: 1. Megan Wyn Pritchard; 2. Gethin Wyn Jones a Deian Williams; 3. Cai Gruffudd Edwards a Llinos Elin Roberts.

Bl. 5 a 6: 1. Gwydion Rhys Williams; 2. Chwirydd Smith, Cwm y Glo; 3. Math Roberts.

Oedran Uwchradd: 1. Beca George; 2. Iwan Jones a Maredd Lois Williams; 3. Anna Wyn Jones.

Teestiliau

Adran Babanod. Addurno Crys-t: 1. Osian Eifion Land; 2. Leisa Nel Williams; 3. Heledd Swyn.

Adran Iau. Unrhyw eitem ar y thema Llinviau: 1. Gethin Wyn Jones; 2. Llinos Elin Roberts; 3. Robin Whiteside Thomas.

Oedran Uwchradd: 1. Anna Wyn Jones.

Agored: 1. Julie Jones; 2. Rhian Whiteside Thomas; 3. Rhian Whiteside Thomas.

Coginio

Meithrin/Derbyn (Addurno Pizza): 1. Maredd Llwyd a Cian Sion Jones; 2. Cari Wyn Pritchard a Maredd Enlli Efans; 3. Tomi Llywelyn a Benjamin Ifan Jones-Ellis.

Bl. 1 a 2 (Addurno Bisgedi): 1. Guto

Whiteside Thomas ac Erin Haf Williams; 2. Moli Wyn Pritchard; 3. Anna Whiteside Thomas.

Bl. 3 a 4 (Bocs Bwyd iach): 1. Llinos Elin Roberts; 2. Osian Wyn Evans; 3. Beca Llwyd a Robin Whiteside Thomas.

Bl. 5 a 6 (Fflapjacs): 1. Math Roberts; 2. Gwydion Rhys Williams; 3. Alys Fflur Williams.

Oedran Uwchradd (Cacen Siocled): 1. Deian Williams; 2. Beca George; 3. Anna Wyn Jones.

Agored - Merched (Cacen Gaws): 1. Mannon Williams; 2. Bethan Jones; 3. Rhian Whiteside Thomas.

Agored - Dynion (Chwe cacen gri): 1. Vaughan Williams; 2. Dylan Williams; 3. Dafydd Roberts.

Agored (Jam/Marmaled): 1. Linda Jones; 2. Gill Brown; 3. Dafydd Roberts.

Agored (Chutney): 1. Miriam Catrin; 2. Marc Roberts.

Agored (Diod 'cocktail'): 1. Dafydd Roberts; 2. Gill Brown; 3. Beca George a Miriam Catrin.

Gosod Blodau

Agored (trefniant mewn cwpan de): 1. Olwen Hughes; 2. Mair Parry; 3. Meirwen Lloyd.

Ffotograffiaeth

(Glan y Môr): 1. Gill Brown; 2. Miriam Catrin; 3. Irfon Jones.

Dyluniad Cyfrifiadurol

Babanod (Tywydd): 1. Rhydian Llyr; 2. Osian Eifion Land a Guto Whiteside Thomas; 3. Iwan Llyr Griffith ac Anna Whiteside Thomas.

Adran Iau (Yr Hydref): 1. Sion Eifion Land; 2. Robin Whiteside Thomas; 3. Llinos Elin Roberts.

Uwchradd (tudalen gyntaf comic): 1. Tomos Huws Tulliver; 2. Anna Wyn Jones; 3. Beca George a Rhun Williams.

Canlyniadau Llenyddiaeth

Rhyddiaith Bl. 3 a 4: 1. Ceri Fflur Griffiths; 2. Llinos Roberts; 3. Harri Tulliver. (oll o Ysgol Llanrug).

Bl. 5 a 6: 1. Pensal Pinc, Cwm y Glo; 2. Robin y Celt, Llanrug; 3. Manon Bl., Llanrug.

Bl. 7: 1. Beca George; 2. Maredd Lois Williams.

Bl. 8 a 9: 1. Ffion Erin Williams; 2. Anna Wyn Jones; 3. Elain Roberts.

Bl. 10 ac 11: 1. Llywelyn Williams; 2. Heledd Roberts; 3. Chris Roberts.

Bl. 12 ac 13: 1. Siôn Emyr; 2. Gerallt Roberts; 3. Siôn Eifion Jones.


John C. Thomas

SAER
COED

ARBENIGO
MEWN CEGINAU A
DODREFN CEGIN

Sacr Profiadol • Prisiau Teg
Ystyried pob math o waith

(01286) 872012
Symudol- 07790 083643



GWYNANT
PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CLWB 300. Enillwyr y Clwb 300 am fis Ionawr oedd: £40: Mr Morus Elfryn, Coed Gwydryn; £25: Mrs G. Jones, Penrhyn, Lôn Ddewi, Caernarfon; £10: Mr R.J. Williams, Gwernydd.

DIOLCH. Eto eleni, dymunwn ddiolch i Swyddogion Eglwys y Waun am iddynt ganiatau inni gael plygu rhifyn Chwefror o'r *Eco* yng nghlydwch y festri.

Oherwydd inni gael y papur o'r wasg ben bore cawsom ei blygu cyn amser cinio a chael cymorth rhai o weithwyr yr Antur a 'phlygwyr newydd' i wneud y gwaith. Methodd rhai ddod atom gan eu bod yn dioddef gyda annwyd trwm a fflw. Hyderwn eich bod chi a phob un arall o'r pentref sydd heb fod yn dda yn ddiweddar yn teimlo'n well.

Diolch i bawb ddaeth i helpu ac i Mrs Jones am y baned.

DATHLU

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Caryl Jones, Stad Ael y Bryn, ar gyrraedd ei deunaw oed. Pob dymuniad da iti i'r dyfodol, Caryl. **GENEDIGAETHAU.** Llongyfarchiadau i Rhian a Martin, Melfyn, Stad Tŷ Hen, ar enedigaeth mab bychan, Siôn, sy'n frawd bach i Dylan, Tomos ac Ella, ac yn ŵyr i Menna ac Elfyn Griffith, Blaen y Nant, Stad Bod Hyfryd.

Llongyfarchiadau hefyd i Llywela a Dafydd Davies, Stad Tref Eilian, ar ddod yn daid a nain

i Caleb, mab bach a anwyd i'w merch, Fiona a Paul yng Nghaernarfon. Mae Caleb yn frawd bach i Kian ac yn or-ŵyr i Mr a Mrs Gwynedd Williams, 2 Bro Waun. Croeso i'r ddau fach a phob dymuniad da i'r teuluoedd. **ADREF O'R YSBYTY.** Mae'n dda deall bod Jina Gwyrfaï, Stad Tŷ Hen yn gwella wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn yr ysbty.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr Richard Charge a theulu Llifon, Rhes Glyn Afon, yn eu profedigaeth o golli chwaer Richard yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd â Mrs Sylvia Prys Jones a theulu Pen-y-Graig yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl ddechrau'r flwyddyn hon. **DIOLCHIAU.** Dymuna Gwennllian a theulu y diweddar Gwilym Owen Roberts, Weirglodd Goch, Penisarwaun, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad, yn ymweliadau, cardiau a galwadau ffôn yn ystod eu profedigaeth o golli Gwilym. Diolch arbennig i Dr H. Roberts, Waunfawr, y Canon Tegid Roberts, yr ymgymerwyr E.W. Pritchard, Morfa Nefyn am y trefniadau trylwyr, ac i'r merched am baratoi y te angladd. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gronfa Ymchwil y Galon.

SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: (01286) 650218

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

*Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ*

Ffôn: (01286) 650834

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor 7.30 - 6.30

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

UN FUNUD FACH

PRAWD JAZDY

Bu Prawo yn boendod i blismyn Iwerddon am fisoedd. Roedd yn yrrwr anghyfrifol a droseddai'n ddi-baid. Cafodd ei ddal yn goryrru neu'n parcio'n anghyfreithlon fwy na hanner cant o weithiau. Ond methwyd â'i ddwyn gerbron ei well. Pan anfonid gwys ato, roedd gan Prawo gyfeiriad gwahanol. Symudai o dŷ i dŷ, ac o sir i sir, gan osgoi'r heddlu bob gafael. Roedd yn giamstar am osgoi pob dirwy a chosb.

Wedi misoedd o ddyfalu pwy a lle oedd Prawo, cafodd y dirgelwch ei ddatrys. Ond ni ddoed â Mr (neu Ms) Jadzy gerbron yr un ynad na barnwr, gan i'r heddlu sylweddoli mai 'Trwydded Yrru' yn yr iaith Bwyleg oedd 'Prawo Jadzy', ac nid enw person o gwbl. Roedd cyfrifiaduron yr heddlu wedi camddarllen trwyddedau gyrru llawer o Bwyliaid a fu'n gweithio yn Iwerddon, gan dybio mai enw'r gyrrwr oedd y ddau air yma ar ben y drwydded.

Y mae a wnelo'r hyn a gredwn â'n hymddygiad, a gwelwyd hynny yn yr achos hwn. Bu'r heddlu ar y trywydd anghywir am iddynt gamddeall geiriau'r drwydded. Ar y trywydd anghywir hefyd y bydd pawb sy'n camddeall yr hyn a ddywed Duw yn ei Air. A thristwch pethau yw bod llawer yn gwneud hynny. Os oedd angen i'r heddlu fod yn ofalus wrth ddarllen y drwydded, mae angen mwy o

ofal fyth wrth ddarllen Y Beibl. Oherwydd mae'n bosibl i ni feddwl ein bod wedi deall ei neges, a ninnau wedi ei chamddeall yn llwyr. A pheth hynod o beryglus yw hynny.

Y Beibl yw arweiniad diogel Duw i ni. Ynddo mae Ef yn egluro ei feddyliau ac yn datgelu ei gynlluniau. Drwyddo mae'n cyflwyno ei Fab, ac yn ein goleuo am ffordd y bywyd tragwyddol. O ddeall yr hyn y mae Duw'n dewis ei egluro i ni, gallwn gredu ac ymddiried ynddo ac ymdrechu i fyw yn ôl ei ddymuniad.

Mae'n rhaid wrth Y Beibl a'i neges am Iesu, ein Harglwydd a'n Gwardwr. Ond os ydym yn camddeall y neges, mynd ar gyfeiliorn fydd ein hanes. Os na chyffeswn Iesu'n Fab Duw, wnawn ni ddim ei addoli. Os na dderbyniwn fod yr hyn a ddywed Ef yn wir, wnawn ni ddim ceisio ufuddhau iddo. Os na welwn iddo farw trosom, wnawn ni ddim ymfrostio yn ei groes. Os na chredwn iddo atgyfodi, wnawn ni ddim ceisio adnabod a dilyn y Crist byw.

Roedd angen cyfieithydd ar yr heddlu cyn iddynt ddeall ystyr 'Prawo Jadzy'. Mae geiriau'r Beibl wedi eu cyfieithu i'n hiaith ers canrifoedd, ond mae angen i ni eu deall o'r newydd. Ac yn yr Ysbyrd Glân, cawsom y 'cyfieithydd nefol' sy'n goleuo Gair y Duw i'w bobl. Ceisiwn felly ei gymorth bob tro y darllenwn ciriau'r Beibl.

JOHN PRITCHARD

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
sponsored by
Welsh Assembly Government



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnyddig drwy Warant 3420271

OES LLE I'R MEIBION AFRADLON?

Y mae'n sicr na fu cyfnod fel hyn ym myd y prif gampau yng Nghymru ers sawl blwyddyn. Ym myd y bêl-droed mae Caerdydd, Abertawe a Wrecsam ymysg ceffylau blaen eu hadrannau ac yn cael llwyddiant yn y cwpanau. Buasai wynebu Man.Utd gartref yn rownd nesaf y Cwpan yn sbardun aruthrol i'r Elyrch lwyddo draw yn Fulham. Dyna fuasai gêm fawr, ond yn anffodus hefyd, yn gosod Roberto Martinez, eu rheolwr, yn fwy o darged gan glybiau'r uwch adran.

Gyda charfan fach mae Caerdydd yn gyson eu perfformiad a dylent gyrraedd y gemau ail-gyfle. Yr un yw'r stori ar y Cae Ras ond gyda charfan anferth. Bydd nifer yn siomedig – fel Steve Evans yn barod – ac yn ymadael ar ddiwedd y tymor. A fydd y rheolwr hefyd?

Mae criw ifanc y garfan genedlaethol yn magu profiad, ac yn datblygu'n dîm anodd eu curo. Edrychwn ymlaen i'r ddwy gêm nesaf wrth herio'r Ffindir a'r Almaen gartref. Trueni nad yw'r bytholwyrdd Giggs ar gael. Mae ei berfformiadau diweddar yn wych, ac yn esiampl mewn byd sydd yn frith o broblemau hunan-ddatblygol ymysg

chwaraewyr ieuanc. Onid oes lle iddo ymysg y tîm hyfforddi?

Y mae rhai yn ail-gyfodi'r ddadl ynglŷn â chynnwys Robbie Savage yn y garfan. Mae yn chwarae'n bwrpasol a beiddgar draw yn Derby. Y ddadl yw y buasai Savage yn fwy effeithiol na Robinson a Fletcher, ac yn gwarchod yr ieuencid dawnus. Rwy'n cytuno â hyn, ond ni fuaswn yn ei dderbyn yn ôl i'r garfan. Ni allwn gamblo bod modd cau y bwlch rhyngddo a Toshack. Mae'n ddigon o waith ceisio cadw Bellamy yn dawel!

* * *

Yna'r bêl-hirgron! Cawsom ddau berfformiad corfforol yn y ddwy gêm agoriadol. Yn sicr, dyma'r tîm mwyaf ffit i wisgo'r crys coch erioed. A gyda'r ffitrwydd mae'r tîm hyfforddi wedi cyflwyno llawer mwy o ddisgyblaeth. Y prif wahaniaeth yn fy marn i yw bod pob chwaraewr erbyn hyn yn chwarae am ei le yn y tîm.

Dros y blynedd diwethaf dibrisiwyd gwerth y 'cap', a thrist yw clywed am rai o'r 'mawrion' yn barod i roi eu capiau ar werth mewn ocsiwn.

Ar eu gorau – fel yn

Murrayfield – mae Cymru yn arddangos y ddawn i ddatblygu gwahanol fath o dactegau. Mae'r pac yn ddigon cryf i chwarae'r gêm dynn, ac yna'r olwyr disglair a'u cyd-chwarae esmwyth. Oherwydd hyn mae dyfnder yn y garfan i ddewis y tîm ar sail y gwrthwynebwyr. Gêm i'r garfan yw hi bellach. Bydd rhaid i Hook a'r enigma, Henson, felly, aros eu tro. Efallai y dânt i ddiwedd eu gyrfa gyda llai o gapiau na llawer un llai dawnus.

Ennill yw phopeth erbyn hyn, ac mae Cwpan y Byd yn llinyn mesur o bob hyfforddwr cenedlaethol. Eleni hefyd mae abwyd Taith y Llewod.

Ar lefel rhanbarth gobeithio y bydd y 'ffactor bositif' yn sbarduno'r Gleision a'r Gweilch yng Nghwpan Ewrop.

Nid wyf wedi anghofio tîm rygbi Merched Cymru. Gallasant hwy anelu am y gamp lawn hefyd.

Gobeithio y bydd y freuddwyd yn parhau wedi'r ymddangosiad yn y Stade de France. Dyna beth fydd gêm, ac y gallaf wedyn fentro i Rufain yn hyderus o weld Camp Lawn olynol, hanesyddol.

Allez le Rouge!

BEICIO NODDEDIG

Unwaith eto eleni, mae tafarn Cwellyn, Rhyd-ddu, yn trefnu taith feicio noddedig o amgylch yr Wyddfa. Mae'r digwyddiad hwn wedi ei gynnal ers sawl blwyddyn bellach, gyda'r arian nawdd yn cael ei gyflwyno i wahanol elusennau.

Mae'r digwyddiad yn cael ei ddisgrifio fel 'taith feicio anffurfiol' – hynny yw, nid ras mohoni, a gall pawb gymryd cyn lleied neu cyn gymaint o amser ag sydd ei angen arnynt i gwblhau'r daith o Ryd-ddu drwy'r Waunfawr i Lanrug, Llanberis a thros y Bwlch cyn disgyn i lawr Nant Gwynant am Feddgelert a'r daith yn ôl i Ryd-ddu.

Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r daith ar ddyddiau Sadwrn a Sul, y seithfed a'r wythfed o Fawrth. I bawb sy'n cwblhau'r daith, bydd cawl cartref yn eu disgwyl yn y Cwellyn, a thystysgrif am orffen, a chasglu arian. Bydd yr holl elw eleni yn cael ei rannu gyda'r gwasanaethau achub, sef Cwn Achub Mynydd, yr Ambiwlans Awyr a'r Timau Achub Mynydd.

Am fwy o wybodaeth anfonwch e-bost i snowdoninn@aol.com

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pŵn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban Cyf

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Dylunio / Design
Cyfryngau / Media
Arddangosfeydd / Exhibitions
Safweoedd / Websites



cread

gwasanaeth dylunio / cyfryngau
design / media service

t - 01248 713437
m - 07867 976183
e - post@creadcyf.co.uk
w - www.creadcyf.co.uk

1161 5an



CHWARAEON

Y 'TAFFS' AR WIB

Un o'r timau llwyddiannus yn y fro yw tîm rasio beiciau modur Bryn Taff. Wedi'r frwydr i ddenu noddwyr a maint y criw wrth gefn, maent yn prysur ennill parch yn y maes cystadleuol hwn. Mae cael Trac Rasio o'r safon flaenaf yn Nhŷ Croes, Ynys Môn, hefyd yn gaffaeliad.

Soniais o'r blaen am y prif reidiwr, Bryn Owen, o Nebo. Wedi cael damwain ddrwg ac anafu ei droed methodd sawl ras yn 2008 ond, trwy ddycnwch, llwyddodd i ddal ei le yn y rhestrau canlyniadau. Dioddefodd hefyd drwy ambell broblem gyda'r beic. Mi ddaw Bryn yn ôl, yn sicr.

Erbyn hyn mae dau reidiwr lleol wedi ymuno â'r tîm. Daw Darren Jones o Fethel, ond o Lanrug erbyn hyn, fel y newydd ddyfodiad, Jonty Gordon.



Jonty Gordon o Lanrug

Bydd 2009 yn flwyddyn fawr i Darren yn ei ymgais i efelychu llwyddiannau 2008. Yn 2008 penderfynodd gystadlu mewn tair cystadleuaeth a hynny yn y dosbarth 125GP – un anodd iawn i'w ennill oherwydd safon a nifer o'r cystadluwyr.

Cynhelir y cystadlaethau dros nifer o rasus ar draciau Tŷ Croes ac Oulton Park. Dechreuodd tymor Darren yn dda gan gipio sawl prif safle ac ambell ail. Cafwyd dwy ddamwain a phroblemau technegol yn rasus Gorffennaf ac Awst draw ym Môn. Roedd y bleiddiaid yn closio. Yn ôl y daeth Darren a, chyda reidio campus, erbyn mis Medi fe gipiodd ddwy bencampwriaeth ar yr ynys.

Gyda coronau'r Pre 1995 125GP a'r Cheshire/ Nantwich 125GP yn y cabinet, roedd y fawr – y Wirral 100 – yn y fantol. Un ras ar yr ynys ac un yn Oulton Park. Connor Behan yn herio Darren. Yna trychineb i Connor. Disgyn ym Môn a saith pwynt o fantais i Darren. Popeth ar y ras olaf. Rhaid oedd i Darren orffen yn drydydd neu well a byddai'n rhaid i Connor ennill. Enillodd

Connor, ond cafodd Darren drydydd, ac felly yn bencampwr o ddau bwynt. Coron Driphlyg i'r Cymro. Edrychwn ymlaen i 2009, a datblygiad Darren.

Kawasaki 600 yw beic y newydd ddyfodiad, Jonty. Tymor o ddysgu a chynefino fu 2008 iddo. Llwyddodd i orffen yn yr 20 uchaf yn y rhan fwyaf o'i rasus – allan o dros ddeugain o gystadluwyr. Yr oedd ei amseroedd yn dangos ei fod ymysg y cyflymaf o'r newydd ddyfodiad. Yna, mewn tair ras ar wyneb anwastad trac Tonfannau gorffennodd Jonty yn yr wyth uchaf bob tro a rhoddodd hyn gryn hyder iddo. Edrychwn ymlaen at fwy o ddatblygiad eleni.

Dymuniadau gorau iddo.

Tim 'bychan' ar lefel Prydeinig ydynt, ond maent yn prysur ennill parch. Yn sicr mae arweiniad pendant a



Darren Jones yn rasio yn Tŷ Croes, Sir Fôn.

phenderfynol Bryn yn elfen, ynghyd ag ymroddiad Bryn, Darren a Jonty. Tu cefn iddynt mae'r ddau fecanic amryddawn, Alfie Bach a'i brentis ifanc, Hugh Price. Yn amlwg, fel pob tîm da mae Bryn yn paratoi olyniaeth i gynnal llwyddiant y tîm.

Eleni gallwch ddilyn perfformiadau'r tîm ar sianel SKY MOTORS TV wrth iddynt gystadlu dros 10 rownd cyfres Thundersport. Hefyd gallwch gysylltu ar y WE drwy glicio ar bryntaffracing.co.uk.



Darren Jones, Bethel

I BLE'R AETH Y 40?

Mewn ychydig o wythnosau bydd tîm pêl-droed y Coleg Normal, tymor 1969/70 yn cael aduniad. Hwn oedd ein tymor cyntaf yn y Caernarfon and District. Ond, er curo'r pencampwyr, Mountain Rangers, ddwy waith, yng nghanol y tabl y gorffennwyd y tymor.

Serch hynny trechwyd y Rangers 2-0 i gipio Cwpan Penrhyn ac, wedi curo Llanrug, colli i Llanberis yn ffeinal yr Alves wedi ail chwarae.

Ar gyfer yr aduniad bûm yn yr Archifdy, a gwnes gopi o adroddiadau Stan Lyle ar gemau'r tymor. Diddorol cofio fod cyfanswm o dros 3,000 wedi dod i'r Oval ar

gyfer y tair ffeinal. Beth fuasai'r Dre yn roi am dorfeydd tebyg heddiw?

Arfon Lewis, Cwil Bach, Brian Corbri, Glyn Jones, Dafydd Butch, Y Twins...

Cricieth, Hiracl Utd., Caernarfon Y.M.C.A., Llechid Celts...

Braf cofnodi'r newidiadau, gyda Llanberis a Llanrug wedi csgyn dwy gynghrair erbyn hyn, a Bethel yn gadarn yng Nghynghrair Gwynedd.

A fydd Eco'r Wyddfa mewn 40 mlynedd, a hanes pa glybiau lleol fydd yn denu sylw, tybed?

Gyda llaw, erys yr hen ddadl – pa gyfnod oedd Oes Aur yr ardal?

O GWM-Y-GLO I'R U.D.A

Cefais ymateb i'r erthygl am Maddison Square Garden yn ymwneud â bocsio – a hynny gan ddyn ffwtbol. Cysylltodd Twm John Roberts o Lanberis gyda manylion am ei daid – Twm Roberts arall. Ar un adeg roedd ei daid, oedd yn gawr o ddyn, yn blismon yng Nghwm-y-Glo.

Cyfarfu Twm John ac ef gyntaf yn niwedd y 40a'u, wedi i'w daid ddychwelyd o'r U.D.A. Disgrifiad Twm o'i daid oedd 'yn dalach na Hywyn, Llanrug' – un arall o'r teulu – 'ond yn llawer lletach.' Tipyn o faint felly – rhyw Primo Carnera Cymreig. Aeth y bonheddwr cydnerth o Gwm-y-Glo i'r Amerig, a chafwyd cofnod ohono ymysg y gweithwyr oedd yn adeiladu rheilffyrdd ar draws y paith. Yno gwnacth gryn enw iddo i hun yn yr amrywiol ornestau bocsio. Nid y rhai ffurfiol, ond rhai 'bare-buckle'. Ymddengys ei fod wedi treulio chwe mlynedd ar draws yr Iwerydd cyn dychwelyd gartref.

Dyma stori wych yn fy marn i ar gyfer ymchwilydd profiadol. Tybed a fu Taid Cwm-y-Glo yn y Garden, yn gwyllo, neu yn y cylch, efallai?

Tîm Pêldroed Llanberis 1911-1912



Beth am enwau i'r rhain? Llun gan Ken Jones, Llanberis

MEIBION AFRADLON a
BEICIO NODDEDIG
mwy o chwaraeon ar dudalen 15